

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Cynnydd ar Weithredoedd (2016 - 2017)

Nodwedd a Ddiogelwch														Cwblhau erbyn	Cynnydd	Diweddariad ar Gyfer Adroddiad Blynnyddol BI 1 (2016/17)
Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	All Alinio Rhyw	Tueddfryd Rhywiol	Oed	Crefydd / Cred	Priodas / Partneriaeth	Beichiogrwydd / Mamolaeth					
<b>Amcan 1: Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb lechyd</b>																
1.1.3	Codi ymwybyddiaeth o brydau ysgol am ddim, eu hannog i dderbyn yr hawl a lleihau'r rhwystrau a stigma i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael digon o faeth, yn iach ac yn gallu perfformio yn yr ysgol.	Partneriaethau	Cynlluniwch Gwasanaeth ADD 1.4.3.7. (COG 1 - Is-grŵp Prydau Ysgol am Ddim)	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Medi 2016		Gweithredwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i wella'r niferoedd sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ac mae argymhellion o'r gwaith hwn wedi'u mewnosod yn narpariaeth y gwasanaeth. Bydd ffigyrau derbyn a hawl yn parhau i gael eu monitro. Ein nod yw cynnig cinio yn ystod y gwyliau hefyd yn rhan o brosiect Cymru-gyfan a byddwn yn chwilio am arian cyfatebol i gefnogi'r fenter hon wrth fynd ymlaen.
1.1.5	Sicrhau bod pobl Conwy yn cael gwybod am yr ystod o gyfleoedd gweithgarwch corfforol sydd ar gael iddynt drwy: ddarparu gwefan o ansawdd uchel, datblygu strategaeth farchnata, datblygu gallu Facebook, darparu diwrnodau rhagflaen i'r cyhoedd, hyrwyddo'r gwasanaeth ar radio lleol.	(CDS) Ffyrdd o Fyw Egnïol a Chreadigol	Cynllun Gwasanaeth CDS 1.4.2.1	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'n safleoedd Cyfryngau Cymdeithasol sy'n defnyddio Twitter a Facebook ac rydym wedi bod yn hyrwyddo rhaglenni ffritwrwydd Les Mills drwy sesiynau Dewch i Drio ym mhob Canolfan Hamdden. Rydym yn cynnal rhaglenni gwyliau plant, Gwersyll Plant a Diwrnodau Agored Ffritwrwydd. Rydym wedi datblygu gwefan newydd ac wedi datblygu Strategaeth Marchnata ar gyfer EIRIAS sy'n cael ei ddatblygu fel rhan o'r Cynllun Rheoli Blynnyddol. Yn ddiweddarach, bu inni gynnal diwrnod dewch i drio lechyd a Lles.
1.1.6	Sicrhau bod pobl yn cael Conwy ddiogel, amgylcheddau cefnogol a hygyrch i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol drwy: gyfleusterau hamdden cynaliadwy, hygyrch a fforddiadwy, rhaglen cynnal a chadw priodol, ac ariannu a chefnogi clybiau a chymdeithasau i ddatblygu a gwella eu cyfleusterau.	(CDS) Ffyrdd o Fyw Egnïol a Chreadigol	Cynllun Gwasanaeth CDS 1.4.2.2	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		Mae offer newydd wedi cael ei roi yn y gampfa yng Nghanolfan Hamdden Abergele i wella perfformiad a diogelwch. Mae cynlluniau ar waith i ailwampio Canolfan Hamdden Colwyn, Canolfan Hamdden Cyffordd Llandudno a Chanolfan Nofio Llandudno. Mae datblygiad Rhodfan lechyd Llanrwst yn mynd rhagddo. Mae arian wedi'i ddiogelu ar gyfer y datblygiad yn EIRIAS ar gyfer yr ystafell lechyd Da, ac arwynebau 3G ac ATP.
1.1.7	Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol ac Addysg i sefydlu canolfannau iechyd yn Llanrwst, Abergele a Llandudno a datblygu'r Ganolfan Iechyd bresennol ym Mae Colwyn.	(CDS) Ffyrdd o Fyw Egnïol a Chreadigol	Cynllun Gwasanaeth CDS 1.4.2.8	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016 - Mawrth 2018		Mae'r Rhodfan lechyd ym Mae Colwyn wedi'i datblygu a'i hymestyn a bydd tîm amlddisgyblaeth o staff o Gymorth Cymunedol, Iechyd, Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol wedi'i leoli yno. Cynhaliwyd gweithdy wedi'i hwyluso gydag Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Undeb Rygbi Cymru (WRU) a rhanddeiliaid eraill. Mae Rhodfan lechyd Llandudno (Tŷ Llywelyn) ar agor ac yn cynnal llawer o weithgareddau iechyd a lles ar gyfer y gymuned leol. Mae'r gwaith ar Rhodfan lechyd Llanrwst yn mynd rhagddo a disgwylir iddo agor ar ddechrau 2018.
1.1.8	Archwilio ac adolygu sut mae bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo o fewn y ddarpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid.	(CDS) Gwasanaethau Ieuenctid	Cynllun Gwasanaeth CDS 1.4.2.10	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		Ymgymeryd ag adolygiad ar sut y caiff bwyta'n iach ei hyrwyddo ac mae adroddiad gydag argymhellion wedi'i rannu gyda'r tîm Gwasanaethau Ieuenctid. Y canlyniad yw y bydd darpariaethau'n cael eu mabwysiadu i sicrhau bod y neges bwyta'n iach yn cael ei hintegreiddio i arferion a bydd pob gweithiwr yn sicrhau eu bod, wrth ddarparu bwyd, yn dangos ymwybyddiaeth ofalgar ac yn cyfleu ei briodweddau iechyd i wella ymwybyddiaeth.
1.1.9	Rhoi cynllun gweithredu 'Conwy Egnïol am Oes' ar waith i annog cyfleoedd i fyw bywydau iach.	[EDU] Gwasanaeth a Chymorth Ysgol	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.4.1.3	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Mawrth 2017		Mae prosiectau blaenoriaeth Actif am Oes Conwy ar gyfer darparu'r cynllun gweithredu ac yn symud ymlaen yn dda. Mae'r prosiect Nofio Ysgolion wedi ymgysylltu ag ysgolion yn effeithiol i newid eu darpariaeth nofio. Mae ailstrwythuro ac adlinio cynhwysfawr o ddarpariaeth y gwasanaeth wedi digwydd yn Chwaraeon Ysgolion Conwy. Bu newid mewn cyfeiriad a ffocws o'r ddarpariaeth ysgol uwchradd i'r gynradd. Bellach mae ysgolion uwchradd yn cymryd perchnogaeth lawn o raglen allgyrsiol yr ysgol. Nod yr agenda Llythrennedd Corfforol, gyda phwyslais ar ddatblygu rhaglenni i blant 3-13 oed, yw annog pob plentyn i fod yn llythrennog yn gorfforol. Mae pob gweithred allweddol arall o fewn Actif am Oes Conwy yn weithredol ac yn gweithio tuag at cynyddu cyfraddau cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol.

1.1.10	Annog bwyta'n iach, h.y., trwy Fenter Ysgolion Iach ym mhob ysgol ac Uned Atgyfeirio Disgyblion ac ymestyn hyn i'n darpariaeth cyn-ysgol.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.4.3.6	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Mae pob ysgol wedi cwblhau Cyfnod 3 Ysgolion Iach sy'n golygu eu bod wedi datblygu ymagwedd ysgol gyfan at fwyta'n iach. Bydd 36 o ysgolion cynradd yn cymryd rhan mewn Gwyliau Bwyd ac mae 31 i leoliadau yn y cynllun cyn-ysgol wedi cwblhau neu'n gweithio ar y safonau maeth.
1.1.11	Hyrwyddo Nant BH a Phentrellyncymmer i ysgolion nad ydynt yn defnyddio'r canolfannau ar hyn o bryd.	[EDU] Gwasanaeth a Chymorth Ysgol	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.4.3.30	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Mae gwaith wedi'i wneud i hyrwyddo Nant BH a Phentrellyncymmer i ysgolion drwy e-bost, taflenni a thrwy gysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr newydd gyda thafenni a chynnig "Defnyddiwr Newydd". Cyhoeddwyd llyfrynau newydd i ysgolion 6 sir Gogledd Cymru ym mis Ionawr 2017 gan ddarparu am y 2 flynedd nesaf o archebion. Mae tîm gweinyddol newydd yn marchnata adegau tawelaf y flwyddyn i geisio cynhyrchu rhagor o incwm i weithredu tasgau datblygu a sicrhau bod y gwasanaeth yn dal i symud ymlaen. Yn ystod adegau tawel mae'r gwasanaeth hefyd wedi bod yn targedu ysgolion drwy hyrwyddo cymorth ar gyfer gweithgareddau cwricwlwm fel adolygu TGAU Mathemateg trwy weithgareddau ymarferol yn ogystal â datblygu gweithgareddau pellach o ran llythrennedd a'r iaith Gymraeg. Bydd y gwaith hwn yn barhaus.
1.1.12	Diogelu iechyd y defnyddwyr sy'n gweithio, sy'n byw yn neu'n ymweld â Chonwy drwy orfodi deddfwriaeth ynglŷn â thybaco ac ysmegu.	[REG] Gwarchod y Cyhoedd	Cynllun Gwasanaeth REG 1.2.2.24	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Mae hysbysebion tybaco wedi cael eu gwahardd ym mhob eiddo sy'n gwerthu tybaco ac maent wedi cael eu harolygu a chadarnhau eu bod yn cydymffurfio. Mae staff Safonau Masnachu a Swyddogion Trwyddedu wedi cael hyfforddiant ynghylch ysmegu mewn ceir ac ar y ddeddfwriaeth ar anterthau cyfreithlon. Gwnaed 3 erlyniad llwyddiannus am werthu tybaco peryglus anghyfreithlon.
1.1.13	Gweithredu a chydlyn menter i helpu teuluoedd i symud allan o dlodi, megis Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.	(SS) Lles Cymunedol	Cynllun Gwasanaeth SS 1.5.1.7	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Mae amrywiaeth o raglenni'n ceisio ymdrin â thlodi gan gynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a Chefnogi Pobl. Mae Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) yn darparu fframwaith i ddod â'r raglenni ymdrin â thlodi at ei gilydd i fodloni anghenion teuluoedd agored i niwed. Comisiynodd Adeiladu Cymunedau Gwydn a Bwrdd Ymdrin â Thlodi'r Cyngor ymchwil yn edrych ar fywyd yng Nghonwy wledig. Yn benodol, edrychodd y gwaith hwn ar y dinasyddion hynny sydd mewn trafferth ariannol a ddim yn cyrchu neu'n cael anhawster cyrchu gwasanaethau yn y sir, o dan y themâu a ganlyn: Mynediad i gyngor a gwybodaeth; mynediad i'r rhyngwyd a data symudol; Mynediad i wasanaethau Canolfan Byd Gwaith; Cludiant cyhoeddus a gwirfoddoli.</p> <p>Ymhlith y mentrau eraill i gefnogi pobl allan o dlodi mae'r rhaglen nofio am ddim, wi-fi cyhoeddus am ddim, cyfrifiaduron cyhoeddus mewn llyfrgelloedd, gwasanaeth cyngor gwybodaeth teulu, prentisiaethau a lleoliadau gwaith i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, parthau dim galw diwahoddiad, gweithgareddau rhad ac am ddim mewn digwyddiadau a redir gan y cyngor a digwyddiadau celfyddydau yn Venue Cymru. Mae ein grwpiau Pobl Greadigol Ifanc rhad ac am ddim wedi'u dylunio i roi i bobl ifanc sgiliau trosglwyddadwy y gallent eu defnyddio yn eu gyrfaedd ysgol ac wrth iddynt symud i oedolaeth. Ymhlith y cyfranogion mae plant sy'n derbyn gofal, plant y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwybod amdanynt, plant / pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, pobl ifanc ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl a phlant o gefndiroedd anodd a heriol.</p> <p>Mae ein rhaglen Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar yn cefnogi 'rhaglen parodrwydd am ysgol' ac yn annog rhieni i gymryd rhan, gan ffocysu ar ddatblygiad iaith plant, cyngor/cymorth gyda dysgu plant sut i fynd i'r toiled, trosglwyddo o'r cartref i flynyddoedd cynnar i ysgol a chefnogi datblygiad/addysg plant yn y cartref. Mae gennym hefyd gynllun lleoedd â chymorth sy'n darparu cymorth ariannol i deuluoedd ar incwm isel gan eu galluogi i gyrchu gofal plant er mwyn gallu gweithio neu hyfforddi.</p> <p>Mae Gwasanaethau Datrysiadau Tai Conwy bellach yn gweithio'n llawn ac yn ymgorffori gwasanaethau atal digartrefedd, digartrefedd, cyngor ar opsiynau tai, cymorth gyda thenantiaeth, gosodiadau sector preifat a rheolaeth eiddo a Homefinder (Dyrannu Tai Cymdeithasol a Chofrestr Tai Cyffredin).</p> <p>Bydd y swyddfeydd newydd ym Mae Colwyn yn rhoi hwb gwerthfawr i gyflogaeth leol yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae Cynllun Gwerth Cymdeithasol wedi'i ddatblygu a'i gytuno gan y prif gontractwr a'r Cyngor sy'n cynnwys y defnydd o fasnachau a defnyddiau lleol lle bo'n bosibl, cynlluniau hyfforddi a phrentisiaethau, darparu gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned, nawdd a gweithgareddau grant. Hyd yma cynhaliwyd tri digwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr' ym Mae Colwyn ac mae strategaeth yn cael ei datblygu ar y cyd â Choleg Llandrillo a'r Bwrdd Diwydiant Adeiladu mewn perthynas â hyfforddiant a phrentisiaethau.</p> <p>Ers Mehefin 2015, rydym wedi bod yn darparu Cymorth Cyllidebu Personol i gwsmeriaid sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd ar gael i aelwydydd o dan brosiect a ariennir gan Deuluoedd yn Gyntaf o fewn Budd-dal Tai. Mae'r Grant Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn wedi helpu pobl sy'n cael Budd-dal Tai a chanddynt ddiffyg yn eu Costau Tai.</p> <p>Mae CBSC wedi sefydlu bwrdd prosiect sy'n cynnwys partneriaid allanol i ddatblygu hybiau cymunedol o gwmpas y 5 clwstwr ysgol ac i hyrwyddo a datblygu'r agenda ymyrraeth gynnar ac atal. Bydd y prosiect yn gweithio gyda'r cymunedau i ddeall anghenion a datblygu rhaglen wedi'i theilwra o gymorth i fynd i'r afael â'r profiadau andwyol a nodwyd.</p>
1.1.14	Datblygu Canolfannau Iechyd a Lles ar safleoedd Tai Gofal Ychwanegol Tan y Fron a Hafan Gwydir ac yng Nghanolfan Hamdden Parc Eirias.	(SS) Lles Cymunedol	Cynllun Gwasanaeth SS 1.4.6.3	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016 - Chwefror 2018	Mae'r Rhodfan Iechyd ym Mae Colwyn wedi'i datblygu a'i hymestyn ar gyfer tîm amlddisgyblaeth o staff o Gymorth Cymunedol, Iechyd, Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol. Mae gwaith ar y Rhodfan Iechyd yn Llanrwst ym mynd rhagddo a disgwylir iddo agor ar ddechrau 2018. Mae bwrdd prosiect wedi'i sefydlu sy'n cynnwys partneriaid allanol i ddatblygu hybiau cymunedol o gwmpas y 5 maes a byddant yn gweithio gyda'r cymunedau i ddeall anghenion.

1.1.15	Adnabod, datblygu a hyrwyddo ystod o brosiectau ynni adnewyddadwy a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar dlodi tanwydd.	(CDS) Busnes a Menter	Cynllun Gwasanaeth CDS 1.5.2.11	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016- Mawrth 2018	<p>Rydym yn gweithio'n gydweithredol gyda Gwasanaethau Tai a Rheolaeth Cyfleusterau ERF o ran effeithlonrwydd ynni cartrefi gwledig sy'n gweithio tuag at brosiect Interreg yr UE. Mae gwybodaeth waelodlin i ymdrin â thlodi ynni gwledig yn dal i gael ei chasglu – mae holiaduron yn cael eu cwblhau mewn llawer o bentrefi gwledig (e.e. Llansannan, Llangernyw a Llanefydd) i weld beth yw lefel y tlodi ynni difrifol. Unwaith y bydd y dystiolaeth o angen yn glir, bydd cais am arian yn cael ei wneud i WEFO. Rydym yn gweithio gyda E.ON ar brosiect posibl yn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Llysaen i ymdrin â thlodi ynni trwy effeithlonrwydd ynni.</p> <p>Mae Ymgynghorwyr wedi'u penodi i gynorthwyo gyda phrosiect Ynni Adnewyddadwy Cymuned Dolwyddelan a rhagwelir y caiff ei gymeradwyo ym mis Awst 2017.</p> <p>Mae datblygiad o'r prosiect morlyn llan yn parhau trwy ymchwil a chyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid yn cynnwys Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Bangor (Seacams), Sir Ddinbych a thîm Morglawdd Abertawe.</p>
1.3.3	Cefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd i fyw yn iach ac yn ddiogel.	(SS) Partneriaeth Pobl Conwy	Cynllun Gwasanaeth SS 1.4.1.5	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Mae Partneriaeth Pobl Conwy (PPC) yn gweithio gyda Rhwydwaith Ymgysylltu Conwy a'r Gymdeithas Alzheimer i edrych ar wneud Bae Colwyn yn Gymuned Cyfeillgar i Dementia. Mae ein cynllun gweithredu Heneiddio'n Dda yng Nghonwy yn amlinellu sut rydym yn cefnogi unigolion a'u teuluoedd sy'n byw gyda dementia, gan gynnwys ymgysylltu â'r rheiny sy'n cael eu heffeithio ganddo, gwella asesu a diagnosis, hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer atal, hybu ymwybyddiaeth a delweddau positif, cynnwys cludiant a thai yn yr agenda.</p>
1.3.4	Mabwysiadu dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gwella ansawdd y gofal.	(SS) Partneriaeth Pobl Conwy	Cynllun Gwasanaeth SS 1.4.1.10	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Mae Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy 2016/17 yn amlinellu ein cyraeddiadau yn y flwyddyn i wella ansawdd gofal. Mae ein ffocws ar ddeilliannau, lles a lleihau rhwystrau at wasanaethau wrth wraidd yr hyn a wnawn yng Nghonwy. Rydym wedi cefnogi ystod arloesol o brosiectau cymunedol ar gyfer oedolion hŷn. Mae ein gwasanaethau Anabledd o bob oed wedi'u mewnosod ac yn parhau i ffocysu ar ddeilliannau clir i bawb sydd ag anabledd. Mae aliniad Gofal Cymdeithasol ac Addysg wedi ein helpu i ddatblygu ein tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r gwasanaeth Pobl Agored i Niwed wedi ffocysu ar y model adfer ar gyfer yr oedolion hynny o bob oed sy'n cael eu heffeithio gan ffactorau a allai effeithio ar iechyd meddwl fel iechyd meddwl gwael neu ddigartrefedd ac rydym wedi cael llawer o ganmoliaethau am ein hymyraethau arloesol. Mae'r Tîmau Iechyd Meddwl Cymunedol wedi bod yn ffocws gwelliant eleni. Mae gan ein strategaeth comisiynu ffocws cryf ar y ffaith mai'r boblogaeth bobl hŷn yw'r fwyaf yng Nghonwy a hi sy'n gwneud y galw mwyaf ar wasanaethau. Mae ein tîm cyfranogiad wedi gweithio'n agos gyda gwaith y cyngor ieuencid.</p> <p>Rydym wedi hyfforddi 28 o staff yn ein Gwasanaeth Anabledd mewn Arfer Person-Ganolog (PCP) a bydd hyfforddiant Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol pellach yn cael ei gynnal yn hwyrach yn y flwyddyn. Mae'r prosiect 'Cynllunio ar gyfer y Dyfodol' yn cael ei gynnal yn Cyswllt Conwy. Defnyddir ymagwedd person-ganolog o fewn llety oedolion ac ar gyfer adolygiadau. Bydd y Grŵp Llywio PCP yn edrych ar fonitro a chydraddoldeb ac yn sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen.</p>
1.3.5	Gofal Diwedd Oes - Bod mwy o bobl, sydd yn dynesu at ddiwedd eu hoes, yn cael gofal yn lle maen nhw wedi dewis ei dderbyn.	(SS) Partneriaeth Pobl Conwy	Cynllun Gwasanaeth SS 1.4.1.15	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Mae Partneriaeth Pobl Conwy, COG 7, wedi hyrwyddo menter Byw Nawr drwy wahanol lwybrau. Maent yn trefnu stonidn yn Hosbis Dewi Sant i hyrwyddo eu taflen profedigaeth, sef Byw Nawr, Cynllunio Gofal Uwch ym mis Hydref 2017.</p>
1.3.6	Cryfhau a monitro darpariaeth gwasanaethau triniaeth yn y cartref ar draws y sir i gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain.	(SS) Partneriaeth Pobl Conwy	Cynllun Gwasanaeth SS 1.4.1.14	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Rydym wedi gweithio gyda chleifion a darparu gwasanaethau triniaeth i gleifion aciwt a allai fod wedi ailwaelu neu pan maent yn cyrraedd am y tro cyntaf, sydd wedi bod ag angen rhagor o gymorth i atal eu hanfon i'r ysbyty. Rydym hefyd wedi gweithio gyda chleifion sydd eisoes mewn ysbyty seiciatrïg, naill ai'n cael eu cadw neu'n anffurfiol, sydd ag angen gwasanaethau triniaeth adref a chynllun rhyddhau saff i gefnogi eu trosglwyddiad nôl i mewn i'r gymuned. Wrth fynd ymlaen byddwn yn edrych ar ba mor llwyddiannus yw'r Gwasanaethau Trin yn y Cartref wrth atal derbyniadau i'r ysbyty yn ogystal â'u gallu i gefnogi trosglwyddiadau o'r ysbyty nôl i'r gymuned.</p>
1.3.7	Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i adolygu ffyrdd o ddarparu Gofal Cymdeithasol a datblygu ystod o ddewisiadau cefnogi ar gyfer y rhai sydd angen cymorth i'w cadw'n annibynnol am gyhyd â phosibl.	(SS) Pobl Hŷn ac Atebion Iechyd Cymru	Cynllun Gwasanaeth SS 1.4.1.17	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Mawrth 2017	<p>Mae Fforwm Gofal Integredig Conwy wedi'i ffurfio fel grŵp aml-asiantaeth gweithredol sydd â'r nod o gefnogi datblygiad a gweithrediad gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol integredig yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd ac asiantaethau eraill a'r Sector Gwirfoddol. Ei nod yw hwyluso'r gallu i wneud penderfyniadau ar y cyd gan arwain at well deilliannau i bobl, a helpu i osgoi derbyniadau, lleihau ymyraethau diangen a gwella cynllunio gwasanaethau gan ganiatáu integreiddio cryf.</p> <p>Yn bennaf, mae'r gwaith hwn yn cefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth ac aros adref, gan osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty ac oedi wrth ryddhau cleifion a datblygu gwasanaethau gofal a chefnogaeth integredig i grwpiau eraill o bobl. Byddwn yn parhau i symud y gwaith hwn ymlaen er mwyn datblygu gwasanaethau yn y gymuned.</p>

1.3.8	Byddwn yn adolygu cyfleoedd gofal dydd ac yn gewithio gyda chymunedau i ymchwilio i gyfleoedd i roi cymorth i bobl yn eu hardal lleol, gan hybu cynhwysiant cymdeithasol a lleihau gwarthnod (gan gynnwys gwaith mewn perthynas â tueddfryd rhywiol a hunaniaeth rhyw ac iechyd meddwl)	Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Barhaus drwy gydol CCS	Rydym wedi ailwampio Canolfan Marl i ddarparu gwasanaeth hygyrch yn y gymuned leol i fodloni anghenion poblogaeth sy'n heneiddio sydd ag Anabledd Dysgu a phobl ag anableddau dysgu dwys a lluosog (PMLD). Mae ein prosiect 'Fitsteps' yn hyrwyddo cynhwysiant a mynediad i bobl ag Anableddau sydd efallai ag angen ychydig bach mwy o help i ddefnyddio eu Canolfannau Hamdden lleol.  Rydym wedi dechrau trafodaeth gyda Choleg Llandrillo i weithio mewn partneriaeth i sicrhau ein bod yn gallu bodloni anghenion pobl ifanc ag anableddau'n lleol, gan leihau'r angen iddynt gyrchu Addysg bellach tu allan i Gonwy.
1.3.9	Byddwn yn rhoi cymorth i unigolion a theuluoedd sy'n cael anhawster oherwydd bod aelod o'r teulu'n Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol neu Drawsrywiol ac yn 'dod allan' i sicrhau eu bod yn cael cymorth i osgoi anfantais.	Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Barhaus drwy gydol CCS	Ar hyn o bryd, rydym yn cefnogi plentyn mewn gofal sy'n mynd trwy drawsnewidiad. Gwnaeth y grŵp LGBT gyflwyniad yn ystod yr hyfforddiant cyd-banel Mabwysiadu ar draws Gogledd Cymru i ddarparu cyngor penodol ar asesu cyplau o'r un rhyw neu rhai hoyw neu drawsryweddol, a fu'n fuddiol iawn i holl aelodau'r panel.  Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth LGBT cyffredinol mewn Gwasanaethau Oedolion wedi'i drefnu i archwilio'r rhwystrau a wynebir gan gymunedau LGBT+ ac i ddarparu cyfle, sy'n cwmpasu: dod allan, perthnasoedd, teuluoedd, adnoddau LGBT+, grwpiau cymdeithasol a chefnogi. Bydd y cwrs yn cynnwys trosolwg o brif ddeddfwriaethau cydraddoldeb.
1.5.1	Datblygu a gweithredu Polisi Iechyd Meddwl yn y Gweithle	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Cyflwynwyd Polisi Iechyd Meddwl yn y gweithle yn ystod 2016 ac mae'r staff wedi'i groesawu. Digwyddodd lansiad y polisi newydd ar yr un pryd â'r wythnos Iechyd Meddwl Genedlaethol pan fu inni fanteisio ar y cyfle i godi ymwybyddiaeth yn y gweithle. Cafodd hyn ei gefnogi gan gyflwyniad gwefan mewnnewydd ar wahân o'r enw "Conwy Cares" sydd â gwybodaeth ac arweiniad yn ogystal â llawer o adnoddau hunan-helpu a chyfeiriadau at gyrrff cefnogi eraill o gwmpas yr agenda lles meddwl. Mae hyn hefyd wedi cael ei gefnogi gan y Rhaglen Cymorth Gweithiwr (EAP) yn eich poced ac Apiau Ynys Di-straen a pharhad argaeledd Care First (gwasanaeth cwnsela i weithwyr).
1.5.4	Llunio strategaeth Anableddau Dysgu sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaeth i ganolbwyntio ar sefydlu cynllunio a phroffiliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolion.	Partneriaethau COG 4 - Anableddau Dysgu		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Mae Strategaeth Arferion Person-Ganolog (PCP) wedi'i ddatblygu gan is-grŵp PCP o COG 4. Cynhyrchwyd y strategaeth gyda chymorth defnyddwyr gwasanaeth o Ysgol Gogarth a Chyswllt Conwy. Mae'r strategaeth wedi cael ei chymeradwyo gan y Bwrdd CPP ac mae hyfforddiant mewn Arferion Person-Ganolog wedi'i roi ar waith fesul cam i Staff Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Ysgol Gogarth wedi cynnal cynllun peilot o adolygiadau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9 mewn ffordd PCP. Mae Eiriolwyr PCP yn cael eu hadnabod o fewn Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae hwb wedi cael ei sefydlu ar gyfer staff sydd wedi'u hyfforddi mewn PCP i gyrchu adnoddau ac mae'n darparu rhwydwaith cefnogaeth.
1.5.7	Arbrofi gyda dau grŵp a dargedir i roi profiadau dysgu anffurfiol i blant a phobl ifanc a allai fod o fewn peryg o ddatblygu problemau iechyd meddwl ym maes y Celfyddydau yn ei ystyr ehangach leoedd o brofiadau dysgu anffurfiol o fewn maes y Celfyddydau yn ei ystyr ehangach.	Partneriaethau COG 1 - Gweithgor Diwylliant	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.3.15	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Bu inni gynnal cynllun peilot o ddau grŵp targed gan roi i blant a phobl ifanc a allai fod mewn perygl o ddatblygu problemau iechyd meddwl gyfleoedd i gael profiadau dysgu anffurfiol o fewn maes y Celfyddydau yn ei ystyr ehangach. Bu hwn yn llwyddiant mawr ac mae arian wedi'i ddiogelu gan ACW a Phlant mewn Angen i barhau gyda'r prosiect am 18 mis arall ac mae dau aelod o staff wedi'u dyrannu i gefnogi'r grŵp.
1.5.8	Parhau i weithio gydag Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy ar y cyd â CAMHS a MIND Aberconwy i sicrhau cyllid pellach i ddatblygu a hyrwyddo prosiectau i gefnogi plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl drwy gyfrwng y Celfyddydau i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau bywyd (drwy weithgareddau megis 'Cylch Stori', 'Grŵp Gair Llafar', 'Llefaru, Ysgrifennu, Credu', 'Beirniaid Ifanc', 'Gŵyl Gelf i'r Teulu', 'Cymerwch ran' ac 'Inspire').	Theatrau a Chynadleddau		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Barhaus drwy gydol CCS	Mae theatrau a chynadleddau wedi parhau i weithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy (CAT) i ddatblygu'r prosiectau hyn ac maent hefyd wedi datblygu prosiectau sydd wedi'u hanelu'n benodol at bobl hŷn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda CAT i ddiogelu arian ar gyfer y prosiectau wrth fynd ymlaen.
1.6.1	Cyflwyno prosiect dementia a hel atgofion 'Amser i Gofio' mewn ysbytai a lleoliadau heblaw i ysbytai.	Partneriaethau COG 3 - Dementia		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Mae Offeryn Taith Dementia Conwy wedi cael ei gynhyrchu a chaiff ei ddisbarthu i wahanol weithwyr proffesiynol o fewn iechyd, yr awdurdod lleol a'r trydydd sector i'w ddefnyddio gyda chleifion sydd newydd gael diagnosis. Mae'r Offeryn Taith Dementia wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd CPP.

1.6.2	Cynhyrchu 'Offeryn Cyfathrebu' i wella cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Hamdden a Sefydliadau Gwirfoddol sy'n gweithio gydag unigolion sydd ag Anableddau Dysgu.	Partneriaethau COG 4 - Anableddau Dysgu		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		Mae Canllaw Cyfathrebu Hygyrch i Weithwyr Proffesiynol wedi cael ei gynhyrchu ac ar hyn o bryd mae'n cael ei gyfieithu, cafodd y canllaw ei ddatblygu gan amryw weithwyr proffesiynol o fewn iechyd, gofal cymdeithasol, gwasanaethau ieuencid a rhiant-ofalwr. Mae hyfforddiant wedi'i gynnal gyda gweithwyr proffesiynol o fewn gofal cymdeithasol, ac unwaith y bydd y canllaw wedi'i gyfieithu, bydd yr hyfforddiant yn cael ei roi ar waith ymhellach.
1.6.4	Cryfhau gwasanaethau gofal sylfaenol drwy hybu rhaglenni hyfforddiant ac ymwybyddiaeth er mwyn galluogi adnabod salwch iechyd meddwl.	(SS) Partneriaeth Pobl Conwy	Cynllun Gwasanaeth SS 1.4.1.12	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		Mae COG 5 yn parhau i ddatblygu a chyflwyno'r Bartneriaeth Ddysgu sy'n cael ei hwyluso gan Unllais a'i chefnogi gan y grŵp. Bydd y Bartneriaeth Ddysgu yn datblygu cyfleoedd dysgu ehangach ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol.
<b>Amcan 2 : Mynd i'r afael â deilliannau anghyfartal mewn Addysg i gynyddu potensial unigolion i'r eithaf</b>															
2.1.2	Gwella trawsnewid i ddysgwyr o ysgolion arbennig Siroedd Conwy a Dinbych i sectorau Addysg Bellach.	Partneriaethau COG 1- NEETS Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.5.27		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		Yn dilyn adolygiad o'r broses trosglwyddo a'r cwricwlwm, mae cyrsiau 'Pontio'r Bwlch' wedi'u datblygu yng Ngholeg Llandrillo a fydd yn cefnogi integreiddio dysgwyr o Ysgol Y Gogarth i mewn i gyrsiau Addysg Bellach lle bo'n bosibl. Byddwn yn parhau i fonitro deilliannau, olrhain dysgwyr, rhannu arfer da a chynllunio ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf lle bo'n briodol. Mae Ysgol y Gogarth wedi adrodd bod y broses trosglwyddo ddiwygiedig wedi arwain at ddilyniant ystyrlon pan fydd eu dysgwyr yn trosglwyddo i'r coleg.
2.1.3	Prosiect i fesur gwelliannau yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn dilyn y prosiect ymchwil cychwynnol 'Uchelgais Derbyn Gofal'.	Partneriaethau COG 1- LAC		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		Cyflwynwyd a chaniatâd pobolrannol sy'n mynychu ysgolion gwellaad yng Nghonwy. Mae'r gwaith o drawsginio ymatebion disgyblion i fesur gwelliannau i wasanaethau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn dilyn y prosiect ymchwil 'Uchelgais Plant sy'n Derbyn Gofal - 2013' yn parhau i fynd rhagddo. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn dod i ben yn ystod Tymor y Gwanwyn 2017.
2.1.5	Gweithio gydag ysgolion i ddatblygu cysylltiadau gyda rhieni a gofalwyr disgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig.	Partneriaethau	Cynllun Gwasanaeth Partneriaethau Addysg 1.4.3.23	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Awst 2016		Mae cyfarfod gyda rhieni dysgwyr Saesneg fel laith Ychwanegol (SIY) wedi'i drefnu ar 16/06/2017 yn Ysgol Y Foryd lle bydd cyfle i rieni gwrrd â staff SIY a staff ysgol ac i weld ystod o adnoddau. Bydd holiadur byr ar gyfer y rhieni yn gofyn iddynt am eu barn a syniadau ynghylch sut y gall y gwasanaeth a'r ysgol eu cefnogi'n well.
2.1.6	Gweithio gydag ysgolion i adolygu data am eu disgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig i olrhain cynnydd dysgwyr.	Partneriaethau	Cynllun Gwasanaeth Partneriaethau Addysg 1.4.3.24	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Awst 2016— Gorffennaf 2017		Mae gwaith wedi'i wneud gyda tîm MIS Conwy (Systemau Gwybodaeth Rheolaeth) i ystyried opsiynau ar ddata sydd ar gael y gellir eu defnyddio i olrhain cynnydd dysgwyr. Mae'r tîm Saesneg fel laith Ychwanegol (SIY) yn nodi'r meysydd y mae arnynt eisiau eu holrhain i alluogi'r broses hon. Mae templed wedi'i ddatblygu ar gyfer ysgolion i fewnforio system i'w hysgol i echdynnu data a chaniatáu i'r tîm SIY ddilysu data'r dysgwyr.
2.1.7	Cyflwyno ar fentrau llythrennedd cenedlaethol a lleol.	[CDS] Diwylliant a Gwybodaeth	Cynllun Gwasanaeth CDS 1.1.2.2	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		Ymwelodd staff y llyfrgell ag ysgolion cynradd Conwy i hyrwyddo Sialens Ddarllen yr Haf, 'Anifail-Ysbiwyr'. Cofrestrodd 1,780 o blant yng Nghonwy ar gyfer y sialens i ddarllen chwe llyfr dros dri ymweliad â'r llyfrgell dros yr haf. Daeth 166 o blant yn aelodau o'r llyfrgell er mwyn cymryd rhan mewn Anifail-Ysbiwyr. Mae'r Sialens Ddarllen yn ffordd wych o annog plant i ddal ati i ddarllen dros wyliau'r Haf. Mynychodd 241 o blant a 171 o oedolion amser stori a sesiynau crefftiau ar thema Sialens Ddarllen yr Haf. Cyflwynwyd rhan fwyaf y sesiynau gan staff y llyfrgell a chafodd rhai eu cyflwyno gan bartneriaid fel y Sw Fynydd Gymreig, Elfennau Gwyllt ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru. Cynhaliwyd sesiynau ym mhob un o'r 10 llyfrgell dros wyliau'r Haf. Sesiynau Dawns i Bawb ar gyfer babis a phlant bach  Gweithiodd llyfrgelloedd mewn partneriaeth gyda Dawns i Bawb i drefnu a chynnig sesiynau dawns a stori creadigol dwyieithog rhad ac am ddim mewn 5 llyfrgell, i blant rhwng 18 mis a 4 mlwydd oed yn ystod mis Awst. Rhoddodd y sesiynau'r cyfle i blant wrando ar stori, defnyddio'u dychymyg, datblygu symudiad creadigol a chael hwyl.  Bydd y gwaith hwn yn parhau.
2.1.8	Datblygu, cyflwyno a hyrwyddo gwasanaethau darllen o fewn llyfrgelloedd.	[CDS] Diwylliant a Gwybodaeth	Cynllun Gwasanaeth CDS 1.1.2.3	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		Mae ymgysylltu â darllenwyr i hyrwyddo teitlau llyfrau, archwilio cyfleoedd darllen, annog darllenwyr i gymryd risgiau gyda'u darllen a magu hyder wrth roi cynnig ar awduron newydd yn elfen graidd o rôl staff y llyfrgell. Mae hyfforddiant datblygu darllenwr rheng flaen wedi'i ddarparu i staff i ddal ati i danategu ansawdd darpariaeth ein gwasanaeth a phrofiad y darllenwyr. Mae grwpiau darllen ar draws yr awdurdod yn parhau i ffynnu ym mhob un o'r pum llyfrgell ardal ac maent yn parhau i gael eu cefnogi gan staff ac adnoddau'r llyfrgell. Mae nifer o ddigwyddiadau awdur llwyddiannus wedi'u cyflwyno yn llyfrgelloedd Conwy a Bae Colwyn. Mae buddsoddiad parhaus yn y gronfa llyfrau'n sicrhau bod gan Gonwy ystod amrywiol o ddeunydd ansawdd uchel i'w hyrwyddo i ddarllenwyr mewn copi caled a fformat electronig.

2.1.9	Gweithio ar y cyd â'n partneriaid i gyflawni'r agenda rhanbarthol o wella ysgolion er mwyn codi safonau a sicrhau cyrhaeddiad mewn sgiliau sylfaenol a Phynciau Craidd TGAU ym mhob ysgol.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.1.6	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Mawrth 2017	<p>Mewn partneriaeth â GwE, mae'r Cyngor wedi nodi ysgolion cynradd sy'n tanberfformio er mwyn eu monitro, darparu cymorth ac os oes raid, darparu rhaglen ymyrraeth. Mae targedau heriol yn cael eu gosod er mwyn codi safonau disgyblion. Mae cefnogaeth a siâlens wedi'i seilio ar anghenion a nodir yn 'Coch, Ambr, Gwyrdd' a model cyflwyno gan sicrhau gallu ychwanegol i gefnogi'r ysgolion sydd â'r angen mwyaf, sy'n adlewyrchu ffocws Llywodraeth Cymru ar waith ysgol i ysgol a hyrwyddo system hunan-wella. Mae blaenoriaethau wedi cael eu sefydlu ar gyfer pob cyfnod allweddol addysgol.</p> <p>Mae proffil Estyn Conwy yn bositif gydag ond nifer fach o ysgolion (dau) ag angen lefel uchel o gymorth gan yr Awdurdod Lleol a GwE. Mae blaenoriaethau lleol wedi'u rhannu gyda phenaethiaid Cynradd ac Uwchradd gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella deiliant 5+ y cyfnod sylfaen mewn iaith a Mathemateg</li> <li>• Gwella deiliannau Cyfnod Allweddol 2 mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth</li> <li>• Gwella sgoriau gweithdrefnol a rhesymu rhifedd mewn profion LNF</li> <li>• Sicrhau bod pob ysgol a roddir mewn coch/ambr yn gwneud y gwelliant gofynnol yn y ffrâm amser a nodir.</li> <li>• Gwella deiliannau Cyfnod Allweddol 3 ar lefel 6 mewn Cymraeg a lefel 7 mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth</li> <li>• Gwella mesurau L2+, CSI ac L" yng Nghyfnod Allweddol 4 (o leiaf yn unol â chyfartaledd Cymru)</li> </ul> <p>Mae ymgynghoriaeth yn cael ei gynnal gyda Phenaeithiaid i sicrhau bod blaenoriaethau ysgolion unigol yn alinio gyda blaenoriaethau Awdurdod Lleol a Rhanbarthol Conwy. Cynhaliwyd gweithdai gyda'r Awdurdod Lleol/GwE/Penaethiaid i sefydlu cynllun busnes cadarn sy'n adlewyrchu'n gywir y meysydd i'w gwella gyda'r system addysg.</p>
2.1.10	Addasu dulliau presennol o gofnodi yn unol ag egwyddorion cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn, mae'r cyfan ohonynt yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau addysg unigolyn.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.3.2	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Mae ffurflenni adolygiad blynyddol wedi'u haddasu'n unol â gofynion y rheoliadau deddfwriaethol newydd ac mae peilot o'r dulliau diwygiedig o gofnodi wedi'i gynnal mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig. Hefyd, mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol wedi'i gynnwys wrth ddatblygu'r dulliau hyn yn unol â'r egwyddorion cynllunio person-ganolog. Rydym yn delio â hyn trwy gynllun gweithredu newydd a'i fonitro yn CAMHS.</p>
2.1.11	Sgiliau staff ysgol yn seiliedig ar ddulliau cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ffurfio cynlluniau datblygu unigol.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.3.11	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Mae hyfforddiant wedi'i ddarparu ar gyfer staff addysgu a Phenaeithiaid a phrosiectau peilot mewn ysgolion wedi'u cychwyn. Mae Fforwm Penaethiaid wedi'i sefydlu. Mae'r eiriolwyr Cynllunio Person-Ganolog yn mewnosod yr arferion hyn ar draws holl Ysgolion Conwy.</p>
2.1.12	Rhoi'r cod Braille Cymraeg newydd ar waith.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.3.13	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Cafodd arian ei ddiogelu ac mae'r cynlyfr Braille Cymraeg Unedig bellach wedi'i ailysgrifennu i gynnwys newidiadau a diweddariadau i'r Cod Cymraeg yn unol â Braille Saesneg Unedig. Mae'r cynlyfr yn cael ei brawf-ddarllen ac ynghyd â deunydd cwrs newydd, bydd yn cynnig cymhwyster Braille cyfredol i'r rheiny sy'n gweithio tuag at gefnogi pobl ifanc a dysgwyr trwy gyfrwng Braille Cymraeg.</p> <p>Nawr, mae'r RNIB (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall) yn gyfrifol am gynhyrchu a pharatoi'r defnyddiau a ddefnyddir wrth gyflwyno cymhwyster y cwrs yn ogystal â chyhoeddi'r Cynlyfr ei hun.</p>
2.1.13	Llunio rhaglen o leoliadau profiad gwaith o fewn y Gwasanaeth Addysg.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.5.18	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Mae rhaglen o leoliadau wedi'i datblygu mewn Addysg a gefnogir gan Adnoddau Dynol Corfforaethol a fydd yn parhau i chwilio am gyfleoedd lleoliadau a lleoli ymgeiswyr.</p>
2.1.14	Cydlynio protocol i gefnogi ceiswyr lloches yng Nghonwy.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.4.3.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Mae protocol i gefnogi ceiswyr lloches yng Nghonwy wedi'i ddatblygu gyda chymorth y Gwasanaethau Plant, gan ddefnyddio Protocol Wrecsam ar gyfer Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys datblygiad llyfryn canllaw ar gyfer ysgolion Conwy.</p> <p>Mae Conwy wedi gwirfoddoli i fod yn ganolfan gwasgariad peilot ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru.</p>
2.1.15	Cefnogi rhagor o ysgolion cynradd i ddysgu o leiaf 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.	[EDU] Ysgolion Cynradd	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.7.1.2	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Gall 43% o ysgolion cynradd Conwy addysgu'r cwricwlwm llawn trwy gyfrwng y Gymraeg, a gall 27% addysgu'r cwricwlwm llawn yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Siarter Iaith wedi'i mabwysiadu mewn 45% o ysgolion cynradd Conwy. Bydd hyn yn hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg a hyrwyddo diwylliant Cymru. Mae 16 o ysgolion yn addysgu 25% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg er bod angen iddynt dderbyn cymorth parhaus i gynnal y momentwm. Mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru ar adolygu ein CSCA (Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg) mae meysydd i'w blaenoriaethu wedi cael eu nodi.</p>
2.1.16	Parhau i fonitro a chefnogi plant sy'n gartref haddysgu.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.4.2	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Mae nifer y disgyblion sy'n dewis derbyn eu haddysg adref wedi codi yn y flwyddyn ddiwethaf o gyfartaledd o tua 70 yn y blynyddoedd diwethaf i 120 yn 2016/17. Rydym yn parhau i anfon llythyrau / gwaith papur i bob disgybl newydd sy'n derbyn eu haddysg adref ac yn darparu cymorth, arweiniad a deunydd yn ôl yr angen / cais. Mae panel aml-asiantaeth yn parhau i gymedroli disgyblion.</p>

2.1.17	Defnyddio'r grant referniw 14-19 blynyddol i gefnogi prosiectau ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.5.34	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Mae Llwybrau Dysgu 14-19 wedi cael eu defnyddio i ariannu Car Cit a Phrosiect Beic Cwad yn Hyfforddiant Gogledd Cymru. Mae 18 o ddysgwyr ar y cwrs hwn ar hyn o bryd. Mae 34 o ddysgwyr ar leoliadau Profiad Gwaith Estynedig ac yn astudio ar gyfer cymhwyster BTEC Sgiliau Gwaith Lefel 2 hefyd yn Hyfforddiant Gogledd Cymru. Ym Mhenrhos Avenue, gall dysgwyr gyrchu cyrsiau 'Ymgysylltu trwy Alwedigaeth' sy'n cynnwys cyrsiau mynediad byr, hyblyg mewn byw yn y gwyllt, langylchu, cymysgu cerddoriaeth, arlwyio a thrin gwallt. Mae 30 dysgwr ar y cyrsiau hyn. Mae pob cwrs ar gyfer dysgwyr blwyddyn 11 sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Mae'r cyrsiau hyn yn llwyddiannus iawn ac yn bodloni anghenion dysgwyr mewn ysgolion sydd mewn perygl o ddod yn NEET.
2.1.18	Cyflawni'r Prosiect (Cronfa Gymdeithasol Ewrop) TRAC 11 – 24 yng Nghonwy fel rhan o Brosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop TRAC Rhanbarthol Gogledd Cymru.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.5.13	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Cafodd Prosiect TRAC [ESF] ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2016 a daeth yn weithredol yng Nghonwy ar 1af Ebrill 2016. Ers mis Ebrill, mae'r tîm wedi bod yn rhoi'r prosiect ar waith ac mae hyn wedi cynnwys cynnal cyfarfodydd Panel gyda phob ysgol uwchradd, yr Unedau Atgyfeirio Disgyblion (Wyddfid, Bryn y Maen a Penrhos Avenue) ac Ysgol y Gogarth i drafod atgyfeirio dysgwyr sydd fwyaf mewn perygl o NEET i'r prosiect.  Rhaid i ysgolion ddangos eu bod wedi trio pob strategaeth ac adnodd cyn cyfeirio at TRAC. Yr allbynnau i Gonwy erbyn diwedd y prosiect yw: 768 cyfranogwr (360 merch, 408 gwryw) y mae 285 ohonynt wedi cael cymhwyster Lefel 1/2 430 ohonynt bellach mewn llai o berygl o ddod yn NEET  Ym mis Mawrth 2017, roedd 105 o gyfranogion yn ymgysylltu â gweithwyr TRAC ac mae rhai yn cyrchu gweithgarwch gan y fframwaith o ddarparwyr. Mae cymeradwyaeth i redeg y prosiect hwn nes 2020 wedi'i roi yn barod ac mae cais i'w estyn ymhellach i 2022 wedi'i gyflwyno. Awgrymwyd y gallai'r prosiect weithio gyda disgyblion B16.
2.1.19	Datblygu offeryn adnabod yn gynnar rhanbarthol, sy'n mapio nifer y bobl ifanc sydd mewn perygl o beidio bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.5.18	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Aeth teclyn adnabod cynnar rhanbarthol, a elwir yn 'Teclyn Proffilio Dysgwyr' (LPT), yn fyw ym mis Medi ac mae e ar gael i ysgolion a swyddogion addysg eraill ei ddefnyddio er mwyn olrhain pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Ymhlith y data sy'n cael ei gipio mae presenoldeb, cyrhaeddiad ac ymddygiad ar bob dysgwr ym Mlwyddyn 7 – 11 o'r system ONE a data a bydd data a geir drwy'r teclyn yn cael ei ddefnyddio i nodi cyfranogion ar gyfer prosiect TRAC [ESF]. Mae'r teclyn wedi'i ddefnyddio mewn Paneli Ymgysylltu Ysgolion i nodi dysgwyr sy'n gymwys ar gyfer Prosiect TRAC [ESF].
2.2.1	Parhau i fonitro nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n rhan mewn achosion o fwlio fel yr adroddwyd yn ysgolion cynradd ac uwchradd Conwy. Setiau data newydd i gael eu datblygu ar gyfer adrodd o 2016 ymlaen.	Partneriaethau COG 2 - Bwlio (Mesur perfformiad yn COG 2)		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Parhaus	Mae COG 1 a COG 5 yn parhau i fonitro'r ffigyrau hyn ac mae gan ysgolion ganllawiau cenedlaethol y mae'n rhaid iddynt gadw iddynt.
2.2.2	Casglu, monitro a gwerthuso data bwlio i nodi tueddiadau ac ymyriadau i fynd i'r afael â bwlio.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.4.3.3	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Awst 2016	Cesglir data sy'n gysylltiedig â bwlio mewn ysgolion bob mis Medi ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Caiff ei gasglu o ysgolion unigol a'i adio at ei gilydd dros yr ystod oed babanod 3 i 7 oed, yr ystod oed iau 7 i 11 oed a'r ystod oed uwchradd 11 i 16 mlwydd oed. Mae nifer y digwyddiadau bwlio a gafodd eu hadrodd yn yr ystod oed Babanod ac iau yn isel o gymharu â'r hyn a gaiff ei adrodd yn yr ystod oed Uwchradd.  Caiff natur y bwlio a'r achos tebygol eu cofnodi. Y tri rheswm mwyaf cyffredin dros fwlio ar draws pob oed yn 2015 a 2016 oedd cam-drin Corfforol, Profocio a Galw Enwau. Mae polisïau bwlio mewn ysgolion wedi'u diweddarau nifer o weithiau yn y blynyddoedd diweddar.
2.2.3	Ariannu teithiau theatr mewn Ysgolion Uwchradd yng Nghonwy a Sir Ddinbych - tynnu sylw at berthnasoedd diogel ac egluro'r angen i drin eu gilydd â pharch. Roedd y cynnwys hefyd yn ymdrin â negeseuon testun o natur rywiol a goblygiadau gweithgarwch o'r fath.	(REG)	Cynllun Strategol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Parhaus	Cafodd y prosiect hwn ei gydlyn gan y Cydlynnydd Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar ran Conwy a Sir Ddinbych, wedi'i ariannu gan nawdd Atal Trosedd Ieuencid. Ymhlith y perfformiadau mewn ysgolion roedd cynnwys ar 'sextio a goblygiadau'r cyfryw weithgarwch'. Mae'r gwaith hwn y parhau mewn ysgolion ac mae'r swyddogion Cyswllt Ysgolion hefyd yn cynnal gwersi ar berthnasoedd saf a pheryglon sextio.
2.2.4	Archwilio cyfleoedd ariannu er mwyn cynnig hyfforddiant Gwrth-fwlio pellach i Ysgolion, Llywodraethwyr a disgyblion i fynd i'r afael â materion bwlio.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.4.3.13	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Awst 2016	Mae gwaith wedi'i wneud mewn ysgolion i ddarparu hyfforddiant ar gyfer staff a llywodraethwyr ar wrth-fwlio mewn ysgolion. Mynychodd pob ysgol uwchradd, Ysgol y Gogarth a 26 ysgol gynradd ein cynadleddau gwrth-fwlio i baratoi at yr Wythnos Gwrth-fwlio ym mis Tachwedd 2016. Cafodd y cynadleddau eu cefnogi gan y Comisiynydd Plant, a gynhaliodd gweithdai rhyngweithiol, ac Actionwork a berfformiodd sioe deithiol. Prif bwrpas y cynadleddau oedd ysbrydoli athrawon a chynrychiolwyr y cyngorau ysgol i gynnal gweithgareddau yn eu hysgolion i nodi wythnos gwrth-fwlio. Hefyd, darparwyd hyfforddiant ar eithafiaeth / radicaliaeth ar gyfer pob ysgol uwchradd. Mae 'Ymddiriedolaeth yr Heddlu a Chymuned' Gogledd Cymru wedi cynorthwyo'n ariannol gyda chynhyrchiad ar gyfer ysgolion sy'n mynd i'r afael â stereoteipiau am geiswyr lloches a ffoaduriaid.
2.2.8	Darparu hyfforddiant cydraddoldeb gorfodol i'r holl staff er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	[EDU] Gwasanaeth a Chymorth Ysgol	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.4.3.20	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Mae'r modwl e-ddysgu Ymgysylltu ag Amrywiaeth yn hyfforddiant gorfodol i holl staff Cyngor Conwy. Cynhyrchir adroddiadau rheolaidd ar gyfer gwasanaethau i'w galluogi i dargedu staff nad ydynt wedi ymgymryd â'r hyfforddiant hwn yn eu hadran. Gofynnir i bawb sy'n dechrau o'r newydd ymgymryd â'r hyfforddiant yn rhan o'u cyfnod ymsefydlu. Mae'r hyfforddiant hwn ar gael i staff yn y Ganolfan Addysg yn ogystal ag i ysgolion unigol.

2.3.1	Cymryd rhan mewn ffeiriau gyrfaoedd i sicrhau bod ysgolion / colegau lleol yn ymwybodol.	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ar unwaith ac yn barhaus		Bu inni fynychu 4 Ffair Gyrfaoedd yn ystod y flwyddyn i hyrwyddo'r Cyngor fel cyflogwr o ddewis, ac roedd rhai o'r rhain wedi'u hanelu'n benodol at bobl ifanc sy'n gadael Addysg ond hefyd at geiswyr gwaith eraill. Bu inni hefyd fynychu digwyddiad 'Dewis eich Dyfodol' a gynhaliwyd yng Ngholeg Llandrillo a oedd wedi'i anelu at holl ddisgyblion blwyddyn 10 ac 11 ar draws Gogledd Cymru. Daeth llawer o geiswyr gwaith a phobl ifanc, gan gynnwys pobl sy'n gadael ysgol, i'r holl ddiwyddiadau.
2.3.2	Cyflwyno'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid sy'n canolbwyntio ar leihau nifer y bobl ifanc 11 i 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).	Partneriaethau COG 1- NEETS		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016- Rhagfyr 2018		Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y Fframwaith Dilyniant Ymgysylltu ag Ieuenctid. Roedd nifer y NEETs (Blwyddyn 11) wedi cynyddu ychydig yn 2015/16 i 2.4% o 1.8% yn 2013/14. Bu hyn am nad oedd yr holl gyrchfannau ar gyfer yr holl ddisgyblion wedi'u nodi. Mae NEETs ar gyfer Blwyddyn 12 ac 13 wedi lleihau ychydig. Bydd y gwaith hwn yn parhau drwy weddill y fframwaith.
2.3.3	Cynnal Asesiad Sgiliau Hanfodol ar bob Prentis sy'n cael eu penodi a darparu hyfforddiant sgiliau hanfodol priodol i gefnogi eu datblygiad yn ystod eu Prentisiaeth i wella canlyniadau gwaith cwrs a chyflogadwyedd yn y dyfodol.	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ar unwaith ac yn barhaus		Cynhelir Asesiadau Sgiliau Hanfodol (Rhifedd, Llythrennedd a TGCh) gan y darparwyr hyfforddiant cyn i bob Prentisiaeth ddechrau. Bydd unrhyw fylchau a nodir yn cael eu hamlygu a rhoddir cymorth i godi'r Prentis i'r safon ddisgwyliedig yn ystod eu lleoliad gyda Chyngor Conwy.
2.3.4	Cefnogi ysgolion â chodi ymwybyddiaeth ar sgiliau recriwtio / cyfnewid a phrentisiaethau ar gyfnodau perthnasol yn y cwricwlwm ysgol.	Adnoddau Dynol Corfforaethol drwy'r Grŵp Sgiliau Lleol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ar unwaith ac yn barhaus		Bu inni gefnogi sesiynau codi ymwybyddiaeth o Brentisiaid mewn ysgolion uwchradd yn rhan o wythnos Prentisiaeth Conwy yn ystod mis Hydref 2016, ac yn ystod yr Wythnos Prentisiaeth Genedlaethol ym mis Mawrth 2017. Rydym yn bwriadu gwneud yr un fath y mis Hydref sy'n dod.
2.3.8	Monitro canlyniadau a lleoliadau'r disgyblion sy'n gadael blwyddyn 11 mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.4.3	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		Caiff y data hwn ei gasglu a'i fonitro bob blwyddyn. Caiff holl ganlyniadau disgyblion a lleoliadau ar gyfer disgyblion sy'n gadael Blwyddyn 11 eu monitro bob Gorffennaf ar gyfer pob ysgol ar draws y Sir. Eleni, y gwahaniaeth rhwng y rhywiau oedd 40% o ferched a 60% o fechgyn. Aeth 64% i'r coleg, aeth 4% yn ôl i'r ysgol, aeth 4% i mewn i hyfforddiant, aeth 2% yn syth i mewn i waith, roedd 13% yn NEET, cafodd 4% gyfeiriadau gyrfaoedd a gadawodd 6% y sir.
2.3.9	Datblygu offeryn adnabod yn gynnar rhanbarthol, sy'n mapio nifer y bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.5.17	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		Aeth teclyn adnabod cynnar rhanbarthol, a elwir yn 'Teclyn Proffilio Dysgwyr' (LPT), yn fyw ym mis Medi 2016 ac mae e ar gael i ysgolion a swyddogion addysg eraill ei ddefnyddio er mwyn olrhain pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Ymhlith y data sy'n cael ei gipio mae presenoldeb, cyrhaeddiad ac ymddygiad ar bob dysgwr ym Mlwyddyn 7 – 11 o'r system ONE a bydd data a geir drwy'r teclyn yn cael ei ddefnyddio i nodi cyfranogion ar gyfer prosiect TRAC [ESF]. Mae'r teclyn wedi'i ddefnyddio mewn Paneli Ymgysylltu Ysgolion i nodi dysgwyr sy'n gymwys ar gyfer Prosiect TRAC [ESF].
2.3.10	Gweithio gyda Gyrfaoedd Cymru i ddatblygu gyrfaoedd cynllunio ar gyfer disgyblion ôl TGAU i leihau'r bwlch rhwng bechgyn a merched (sydd wedi gwrthdroi erbyn hyn), yn dilyn cyrsiau addysg uwch neu brifysgol a galwedigaethau proffesiynol, i gael effaith gadarnhaol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.5.31	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		Ers i agenda Gyrfaoedd Cymru newid, mae eu gwaith bellach yn canolbwyntio ar weithio gyda dysgwyr sydd â'r angen mwyaf am gyngor ac arweiniad. Mae ysgolion yn darparu'r agenda hwn trwy eu rhaglenni Gyrfaoedd a Byd Gwaith a Bagloriaeth Cymru.
2.3.11	Gwella ansawdd y Broses Gynhadledd a cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar canlyniadau	(SS) Safonau Ansawdd	Cynllun Gwasanaeth SS 1.2.4.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		Yn rhan o'r prosiect trawsnewid cyffredinol, mae prosesau Amddiffyn Plant wedi'u hadolygu a'u gwella ac mae rhaglen waith fanwl wedi'i sefydlu o fewn CAMMS i fonitro cynnydd. Yn dilyn adborth gan Gynadleddau Amddiffyn Plant, mae teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mwy yn y broses gynhadledd ac wedi dweud bod y broses yn well nag o'r blaen, yn darparu gwell adroddiadau sy'n dadlau eu hachos yn dda ac yn symud ymlaen yn rhesymegol, yn glir, yn gynhwysfawr, gan gymryd i ystyriaeth pryderon ynghylch deinameg y teulu ac anghenion ychwanegol. Mae elfennau o Signs of Safety wedi'u cyflwyno'n raddol i gynadleddau.
2.3.13	Ceisio cyllid i barhau gyda phrosiectau 'Cylch Stori', 'Grŵp Gair Lafar', 'Llefaru, Ysgrifennu, Creadu', 'Beirniaid Ifanc', 'Gŵyl Gelf i'r Teulu', 'Cymryd Rhan' ac 'Inspire' ar gyfer pobl ifanc i ennill sgiliau trosglwyddadwy.	Theatrau a Chynadleddau		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		Mae prosiectau wedi parhau yn ystod 2016 ac rydym wedi llwyddo i geisio arian ar gyfer prosiectau yn ystod 2017.

**Amcan 3 : Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn Cyflogaeth a Chyflog**

3.1.1	Codi ymwybyddiaeth o swyddi gwag a chyfluoedd yng Nghonwy i bobl o gefndiroedd duon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anabledd.	Adnoddau Dynol Corfforaethol	Adroddiad Monitro Cyflogaeth	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Caiff holl swyddi gwag y Cyngor eu hysbysebu ar ein gwefan cyhoeddus a gyda Chanolfan Byd Gwaith sydd hefyd yn cysylltu gyda'r Ymgynghorydd Cyflogaeth i'r Anabl Lleol. Rydym hefyd yn hysbysebu ar "The People Exchange" sy'n wefan ar gyfer holl swyddi'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mantais y llwybrau hyn yw bod yr hysbysebu'n rhad ac am ddim. Mae cost hysbysebu mewn cyfnodolion a chyhoeddiadau penodol sydd wedi'u cyfeirio at grwpiau anabl neu lleiafrifoedd ethnig du wedi bod yn gost waharddol yn yr hinsawdd ariannol bresennol pan fo cyllidebau'n cael eu lleihau'n gyson. Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu ein tudalen Facebook ein hunain ar gyfer recriwtio, sydd eto'n adnodd rhad ac am ddim. Rydym yn manteisio ar y cyfle i hysbysebu'n rhad ac am ddim lle bynnag y bo'n bosibl ac rydym yn archwilio i beth yn fwy y gallwn ei wneud i fanteisio ar fecanweithiau presennol.</p> <p>Rydym wedi datblygu canllawiau ar ein tudalennau e-recriwtio i alluogi ymgeiswyr ag anableddau i wneud cais drwy ddefnyddio dulliau amgen os oes arnynt angen hynny ac mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar fynediad i ieithoedd eraill a chyfieithu. Yn rhan o'r ymgynghoriad ar we-recriwtio, bu inni ymgynghori â Grŵp Mynediad Conwy a oedd yn fodlon ar y cymorth rydym yn ei gynnig i bobl ag anableddau a allai fod ag anawsterau gydag e-recriwtio.</p>	
3.1.2	Rhoi mecanwaith ar waith i adolygu recriwtio ymgeiswyr du a lleiafrifoedd ethnig ac anabl.	Adnoddau Dynol Corfforaethol	Adroddiad Monitro Cyflogaeth	✓	✓	✓			✓			✓	Rhagfyr 2016 – Mawrth 2018	<p>Mae system llif gwaith o fewn i Trent i amlygu ymgeiswyr sy'n Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ac Anabl i ystyried p'un a ddylent gael eu cynnwys ar y rhestr fer, yn cael ei datblygu. Mae hyn wedi'i ohirio o ganlyniad i gyfnod mamolaeth ac adnoddau cyfyngedig, a dyna'r rheswm dros y cyfraddau amser diwygiedig.</p>	
3.1.3	Sicrhau bod mwy nag un ffordd i bobl wneud cais am swyddi os yw Cymwysiaidau Digidol yn rhwystr i rai grwpiau.	Adnoddau Dynol Corfforaethol	Cynllun Gwasanaeth CHR 1.9.3.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Gall ymgeiswyr sydd ag anabledd sy'n ei wneud yn anodd iddynt lenwi ffurflen gais ar-lein gysylltu â ni am gymorth i gwblhau cais am swydd. Dylai hwn fod yn gais ar bapur neu'n ddull fformat hygyrch arall. Gall ymgeiswyr gysylltu ag AD os oes angen cymorth arnynt i wneud cais am swydd yn y Cyngor a gallent hefyd ymweld â'u llyfrgell leol, lle gallent gael cymorth rhad ac am ddim wrth ddefnyddio cyfrifiaduwr a chyrcu'r rhyngwyd i'w galluogi i wneud eu cais.</p>	
3.1.4	Cynnal adolygiad o'n darpariaeth Hyfforddiant Cydraddoldeb cyfredol a darparu hyfforddiant / ymwybyddiaeth wedi'i dargedu er mwyn i staff ddiwallu anghenion cydraddoldeb penodol, ee, staff TG yn dylunio tudalennau gwe hygyrch.	Adnoddau Dynol Corfforaethol			✓				✓	✓			Rhagfyr 2016 ac yn barhaus – Mawrth 2018	<p>Yn ystod 2014 bu inni nodi cyfres o fodylau e-ddysgu ategol gyda darparwr allanol ond penderfynwyd yn gorfforaethol i newid i'r Academi Cymru-gyfan a ddatblygwyd gan y GIG. Byddai'r platfform e-ddysgu hwn yn ein caniatáu i ddatblygu pecynnau hyfforddiant e-ddysgu wedi'u teilwra at Gyngor Conwy. Bu rhai cymhlethdodau meddalwedd sydd wedi golygu nad yw'r system hon ar gael o hyd ond mae ei ddefnyddio'n dal i fod yn fwriad gennym.</p> <p>Yn y cyfamser rydym wedi diweddarau ein hyfforddiant ymwybyddiaeth o gydraddoldeb e-ddysgu presennol, Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb a Hawliau Dynol. Bu inni hefyd dargedu gwasanaethau rheng flaen ar gyfer hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Drosedd Casineb a hefyd wedi datblygu ein gwefan cydraddoldeb gyda dolenni defnyddiol i wybodaeth ac adnoddau. Darparwyd hyfforddiant pwrpasol ar gyfer Aelodau'r Cyngor ym mis Mehefin 2017 i godi ymwybyddiaeth o ddyletswydd y sector cyhoeddus i barchu cydraddoldeb, yr angen am Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a beth yw eu rôl.</p> <p>Wrth ddatblygu ein gwefan newydd, cafwyd hyfforddiant hygyrchedd ac archwiliad gan y Shaw Trust yn ogystal â hyfforddiant gan SiteImprove a ddarparodd hefyd y gwasanaeth sicrhau ansawdd awtomataidd a ddefnyddir yn fewnol i brofi cydymffurfiaeth y gwefannau gyda Menter Hygyrchedd â'r We Consortiwm y We Fyd-Eang. Dyluniwyd yr ymagwedd hon i ymestyn mynediad i wybodaeth ar-lein drwy ddileu namau a allai creu rhwystrau ar gyfer rhai dyfeisiau neu dechnolegau (cynorthwyol) a ddefnyddir gan ymwelwyr â'r safleoedd. Cyn i ddatblygiad y safle newydd ddechrau, mesurwyd cydymffurfiaeth hefyd yn allanol yn yr adroddiad Better Connected blynyddol gan Socitm.</p>	
3.1.5	Sicrhau bod prosesau apelio mewnol deg a thryloyw ar waith ar gyfer diswyddo/adleoli. Cyfeirio staff at sefydliadau 3ydd parti a all gefnogi staff gyda materion cysylltiadau gweithwyr unigol, ee, Undebau Llafur, Cyngor ar Bopeth, ACAS, rhaglenni Cymorth i Weithwyr, CGGC (?), Y Comisiwn Hawliau Anabledd.	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓			✓	✓	Ar unwaith ac yn barhaus	<p>Mae gan bob polisi allweddol a allai arwain at rybuddion ffurfiol neu ddiswyddiad broses apelio ffurfiol a amlinellir o fewn y polisi hwnnw, e.e. Polisi Disgyblaeth, Polisi Rheoli Presenoldeb, Polisi Gallu, Polisi Colli Swydd, Polisi Gweithio Hyblyg. Mae polisiau cyflogaeth eraill yn darparu cyfleoedd i staff apelio yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan reolwyr, er enghraifft Polisi Cwyn, Polisi Bwlio, Polisi Afionyddu, Polisi Adleoli. Mewn unrhyw broses ffurfiol, caiff staff eu hatgoffa o'u hawliau i gael cynrychiolydd o undeb llafur neu gydweithiwr gyda nhw wrth fynd trwy unrhyw rai o'r prosesau ffurfiol hyn. Rydym hefyd yn ariannu Rhaglen Cymorth Gweithwyr i'r holl staff sy'n rhoi mynediad 24/7/365 at gyngor a gwybodaeth (gwasanaeth tebyg i'r un a ddarperir gan CAB) yn ogystal â chwmsela. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o'n polisiau cyflogaeth yn cyfeirio staff at sefydliadau eraill am wybodaeth, cymorth neu gyngor pellach fel y bo'n briodol. Yn ogystal, rydym wedi datblygu ein safle mewnwyd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n darparu cysylltiadau i sefydliadau ymgynghorol allweddol, e.e. EHRC, ACAS.</p>
3.1.6	Galluogi ymgeiswyr i wneud cais am swyddi heb yr angen am gynnwys cyfeiriad ar y ffurflen gais a chyflwyno teitl enw newydd niwtral o ran rhyw o 'MX' (yn ogystal â Mr a Ms ac ati) ar y ffurflen gais.	Adnoddau Dynol Corfforaethol	Cynllun Gwasanaeth CHR 1.9.3.4	✓	✓	✓	✓						Rhagfyr 2016	<p>Mae Mx, sef y teitl enw niwtral o ran y rhywiau, wedi'i ychwanegu at y ffurflen gais electronig. Nid yw'r llinell cyfeiriad yn orfodol felly gall ymgeiswyr peidio â chynnwys cyfeiriad a chyflwyno eu ffurflen gais o hyd.</p>	

3.1.7	Paratoi dogfen ganllaw i reolwyr a staff i gyfeirio atynt os bydd staff yn anabl yn ystod eu gwaith (ac ar gyfer staff anabl newydd), gan nodi'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt yn fewnol ac yn allanol.	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓					Rhagfyr 2016	Cyhoeddwyd Polisi Rheoli Presenoldeb newydd ym mis Mehefin 2016 sy'n ymgorffori adran ar Salwch Tymor Hir ac Anabledd, sy'n esbonio'n gynhwysfawr sut y byddai hyn yn cael ei reoli yn y gweithle. Mae yna atodiad ychwanegol i'r polisi ar Fynediad i'r Gwaith sy'n rhoi arweiniad ar yr hyn y mae'n ei gwmpasu a sut i gyrchu cymorth i staff a rheolwyr.
3.1.9	Cynhyrchu dadansoddiad ymchwil i gasglu gwell dealltwriaeth o'r materion cyfogaeth i bobl dros 50 oed yng Nghonwy.	Partneriaethau COG 3 – Swyddog Datblygu Strategaeth Pobl Hŷn – Sian Lewis		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Mawrth 2017	Mae Cynllun Gwaith Heneiddio'n Dda yng Nghymru ar waith ac yn destun diweddariadau rheolaidd ar gynnydd drwy'r broses ddemocrataidd. Mae lluo o brosiectau wedi'u cyflwyno o dan y cynllun gweithredu hwn trwy OPUS a chymunedau am waith i weithio gyda phobl dros 50 oed, sy'n cynnig cymorth gyda phob agwedd ar gyfogaeth a recriwtio.
3.1.10	Uchafu'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael i drigolion Conwy mewn datblygiadau allweddol ar draws y rhanbarth.	(CDS) Busnes a Menter	Cynllun Gwasanaeth CDS 1.5.1.2	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Rhagfyr 2016	The European Mae'r Tîm Ewropeaidd wedi sefydlu Grŵp Cyflogadwyedd Conwy, i sicrhau bod yr holl brosiectau sgiliau a chyflogadwyedd a ddarperir yng Nghonwy (gan CCBC ac asiantaethau eraill) yn gweithio mewn ffordd gydlynol, gydgyssylltiedig, gan sicrhau nad yw dyblygiad yn ormodol. Bydd y Grŵp hwn hefyd yn sicrhau bod cyfranogion yn cael eu cyfeirio at yr ymyrraeth pwrpasol gorau posibl.
3.1.11	Hybu Grwpiau Hyrwyddwyr Cydraddoldeb /Rhwydwaith yn fewnol ac yn allanol.	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Rhagfyr 2016	Mae gan bob gwasanaeth Eiriolwr Cydraddoldeb a chynhelir cyfarfodydd yn chwarterol. Cedwir cofnodion ac agendau ar ein safle fewnol ynghyd â Chylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp a disgrifiadau o rôl Eiriolwyr Cydraddoldeb. Yn aml, bydd siaradwyr gwadd yn dod i siarad gyda'r grŵp. Mae trafodaethau wedi dechrau gyda Heddlu Gogledd Cymru ynglŷn â sut y gallwn gyfeirio ein staff at rwydwaith Staff LGBT HGC.
3.1.13	Parhau i gefnogi hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sgiliau Hanfodol.	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Ar unwaith ac yn barhaus	Rydym yn cefnogi Ymwybyddiaeth o Sgiliau Hanfodol drwy wneud yn siŵr bod yr hyfforddiant hwn ar gael i'r holl staff ar ein cynllun hyfforddi blynyddol. Sonnir amdano hefyd wrth staff pan fo'n briodol, e.e. wrth geisio adleoliad. Hefyd, mae Sgiliau Hanfodol yn rhan hanfodol o'n cynllun prentisiaeth, sy'n cefnogi prentisiaid drwy eu codi i'r safon ofynnol yn ystod eu lleoliad gyda Chonwy.
3.1.16	Adolygu beth mae data cyfogaeth yn ei ddweud wrthym o Arolwg Staff 2015 a chymryd camau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion cydraddoldeb a nodwyd, gan ofyn am eglurhad pellach gan staff lle bo angen.	Adnoddau Dynol Corfforaethol	Cynllun Gwasanaeth CHR 1.1.6.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Rhagfyr 2016	Mae data wedi cael ei ddadansoddi o wybodaeth gydraddoldeb Arolwg Staff 2015. Un ardal allweddol lle'r oedd ymatebion mewn rhai grwpiau yn anghymesur â'r ffigwr Cyngor-cyfan oedd mewn perthynas â straen sy'n gysylltiedig â'u rôl neu yn gyffredinol. Mae'r Cyngor wedi gwneud llawer o waith ers yr arolwg staff diwethaf fel bod yr holl staff yn ymdrin â'r meysydd hyn, gan gynnwys gweithredu Conwy yn Malio, yr apiau RhCG (Rhaglen Cynorthwyo Gweithwyr) yn eich Poced ac Ynys Ddi-straen, gweithrediad Polisi Iechyd Meddwl a Lles newydd, argaeledd parhaus Gofal yn Gyntaf (gwasanaeth cwnsela) yn ogystal â hyfforddiant Rheoli Presenoldeb ychwanegol i reolwyr drwy gyflwyno polisi diwygiedig.
3.1.17	Mae gan staff cymorth sy'n cael eu diswyddo gyfleoedd adleoli o fewn y sefydliad.	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Ar unwaith ac yn barhaus	Caiff yr holl staff sydd mewn perygl o golli eu swydd eu rhoi ar gofrestr Adleoliad Conwy a'u cefnogi drwy'r gwasanaeth adleoli gyda chyfleoedd adleoli o fewn Conwy. Rydym hefyd yn defnyddio'r Polisi Adleoli wrth geisio adleoli staff sydd efallai'n straffaglu yn eu swydd bresennol. Lle bo efallai angen cymorth ychwanegol neu arweiniad ar staff yn y broses hon, cânt eu cefnogi gan AD.
3.1.20	Cynyddu nifer y staff sy'n derbyn hyfforddiant Asesu Effaith Cydraddoldeb.	Adnoddau Dynol Corfforaethol	Cynllun Gwasanaeth CHR 1.8.5.10	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Rhagfyr 2016	Mae nifer o gamau wedi'u cymryd i gynyddu nifer y staff sy'n cael hyfforddiant Asesu Effaith Cydraddoldeb: Cyflwyniad i'r Fforwm Rheolwyr ym mis Rhagfyr 2016; Ymweliadau â phob uwch dîm rheoli i nodi eiriolwr ar eu tîm uchaf a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu gwneud pan fydd y polisi/arfer yn cael ei ddatblygu; Adolygu'r Adroddiad ac eitemau agenda'r Grŵp Adolygu a'r Blaengynllun Gwaith ac atgoffa swyddogion am yr angen i ymgymryd ag Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a darparu dyddiadau hyfforddi. O ganlyniad, mae nifer y cyfranogion wedi mwy na dyblu, gyda chyrtsiau ychwanegol yn cael eu trefnu yn ychwanegol i'r rhai chwarterol sydd wedi'u trefnu.
3.1.21	Adolygu trefniadau Hyfforddiant Cydraddoldeb presennol gyda'r bwriad o wella proses, ansawdd a chynyddu nifer y staff sy'n cael eu hyfforddi.	Adnoddau Dynol Corfforaethol	Cynllun Gwasanaeth CHR 1.8.5.11	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Mawrth 2017	Yn ystod 2016 bu inni nodi cyfres o foddlau e-ddysgu ategol gyda darparwr allanol ond penderfynwyd yn gorfforaethol i newid i'r Academi Cymru-gyfan a ddatblygwyd gan y GIG. Byddai'r platform e-ddysgu hwn yn ein caniatáu i ddatblygu pecynnau hyfforddiant e-ddysgu wedi'u teilwra at Gyngor Conwy. Bu rhai cymhlethdodau meddalwedd sydd wedi golygu nad yw'r system hon ar gael o hyd ond mae'n dal i gael ei dilyn. Yn y cyfamser rydym wedi diweddaru ein hyfforddiant ymwybyddiaeth o gydraddoldeb e-ddysgu presennol, Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb a Hawliau Dynol. Bu inni hefyd dargedu gwasanaethau rheng flaen ar gyfer hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Drosedd Casineb a hefyd wedi datblygu ein gwefan cydraddoldeb gyda dolenni defnyddiol i wybodaeth ac adnoddau. Darparwyd hyfforddiant pwrpasol ar gyfer Aelodau'r Cyngor ym mis Mehefin 2017 i godi ymwybyddiaeth o ddyletswydd y sector cyhoeddus i barchu cydraddoldeb, yr angen am Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a beth yw eu rôl.

3.1.22	Rhoi'r rhaglen thema Cymunedau Cyntaf ar waith, sef, Cymunedau Llewyrchus drwy'r prosiectau canlynol: At y Gwaith PC1 a 2 Sgiliau TG ar gyfer Gwaith PC3 Cyfiri'r Ceiniogau PC4 At y Busnes PC5.1 Bancio Amser (Beantime) PC5.2.	(CDS) Gwasanaethau Ieuenctid	Cynllun Gwasanaeth CDS 1.5.2.22	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>At y Gwaith – Mae darpariaeth Clybiau Gwaith wedi cynyddu er mwyn cynnwys ysgrifennu CV, Sgiliau TG ('Switch On') ac asesiadau sgiliau sylfaenol, yn ogystal â chymorth gyda CV, Ffurflenni Cais, Sgiliau Cyfweld, Cyfrifiadau Gwell mewn Gwaith, mynediad i TG, llythrennedd digidol a sgiliau TG ar gyfer gwaith a chymorth, cyngor ac arweiniad un i un. Hefyd, mae staff CAB ar gael i roi cyngor ac arweiniad. Bu inni darged 230 o unigolion, oedd mewn gwirionedd roedd hyn yn hyd at 325 o unigolion. Y rheiny sy'n adrodd eu bod yn fwy positif a hyderus am chwilio am waith: 257 gyda'r un nifer yn chwilio'n weithredol am waith. Mae 102 wedi cael gwaith yn erbyn targed o 34. Hefyd, mae'r prosiect hwn yn cynnwys y siop masnachu prawf yn 22 Ffordd yr Orsaf, sy'n darparu gwybodaeth ar ddechrau a rhedeg eich busnes eich hun. Cafodd y prosiect Pennypinchin ei gomisiynu allan i CAB Conwy. Mae ymgynghorwyr wedi mynychu pob un sesiwn Clwb Gwaith ac maent ar gael i gefnogi a rhoi cyngor ar bob agwedd at gynhwysiant ariannol gan gynnwys rheoli eu harian, a'u cefnogi i gyrchu budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.</p> <p>Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â LIFitC – Pêl-droed yn y Gymuned Llandudno, i ddarparu cyrsiau Sgiliau TG ar gyfer y Gweithle ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch darparu dilyniant i lefel 2. Datblygu cyrsiau Byw'n Dda, Gweithio'n Dda (Meddyliau Iach / At y Gwaith) wedi'u hanelu at ddynion yn unig – hyder, sgiliau cyflogadwyedd, CV, sgiliau cyfathrebu a chyflwyno.</p>
3.1.23	Codi ymwybyddiaeth o brentisiaethau a hyrwyddo cyfleoedd trwy'r Grŵp Cydlynwyr Rhwydwaith sydd â chynrychiolaeth UDRh o bob ysgol uwchradd yng Nghonwy, Unedau Cyfeirio Disgyblion, ysgol arbennig, Coleg Llandrillo, Gyrfa Cymru a TGC.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.5.28	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Sefydlwyd Fforwm Prentisiaethau Ysgolion Uwchradd Conwy yn 2016 ac un o'r deilliannau yw bod Wythnos Prentisiaeth yn cael ei chynnal ar gyfer BI11 ym mis Hydref bob blwyddyn gan ein bod yn teimlo bod yr Wythnos Prentisiaethau Genedlaethol ym mis Mawrth yn rhy hwyr. Bydd disgyblion BI10 yn cael eu targedu ym mis Mawrth a bydd y gwaith yn cynnwys Coleg Llandrillo, Hyfforddiant Gogledd Cymru, Gyrfa Cymru a Thîm Datblygu Busnes Conwy. Mae cyflwyniadau wedi'u gwneud ar brentisiaethau a hyfforddeiaethau wedi'u rhoi i bob dysgwr ym MI10 yn 7 ysgol uwchradd Conwy.</p> <p>Bydd yr Wythnos Prentisiaethau dysgwyr BI11, yn cynnwys panel o gynrychiolwyr o Goleg Llandrillo, HGC, Gyrfa Cymru, gweithiwr a phrentis. Byddant yn ateb cwestiynau gan ddysgwyr gyda'r nod o ddarparu ystod eang o wybodaeth am brentisiaethau. Mae darn o fideo wedi'i greu gan ddysgwyr yn Ysgol Aberconwy a'i gyfarwyddo gan y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae'r adborth gan ysgolion wedi bod yn ardderchog. Bydd y gwaith hwn yn parhau.</p>
3.1.25	Dod â phobl ddiarffwrdd yn nes at fod mewn gwaith trwy ddarparu sgiliau ymarferol a chyfleoedd hyfforddiant iddynt.	(SS) Lles Cymunedol	(SS) Lles Cymunedol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Mawrth 2017	<p>Rydym wedi rhagori ar ein targed i gefnogi 130 o bobl agored i niwed yn agosach i waith drwy ddarparu sgiliau ymarferol a chyfleoedd hyfforddi (yn erbyn targed o 60). Ym mis Mawrth 2017, daw arian Teuluoedd yn Gyntaf i ben ac o 1af Ebrill bydd hyn yn cael ei adrodd fel prosiectau a ariennir gan Ewrop, sef OPUS ac ADTRAC. Cafodd dros 84% ganlyniad positif, sy'n cynnwys cyflogaeth, cael cymhwyster, gwell hyder a hunanwerth, neu wirfoddoli. Bu adborth ar raglenni "Gwaith Amdani" a STEPS yn bositif iawn, er enghraifft: 'Mynd i'r coleg yn amser llawn...cael lleoliad gwaith...dysgu llawer ar gwrs cymorth cyntaf...mae wedi bod yn ffantastig wrth fy helpu i gael lle ar gwrs a magu fy hyder...buaswn yn argymhell y cwrs hwn i bawb...mae'r staff yn wybodus, trylwyr, hawdd siarad â nhw, caredig a hapus...rŵan bod gen i le ar y Radd Sylfaen mewn Plismona rwy'n teimlo fy mod ar y llwybr gorau at yrfa'.</p>
3.1.26	Cefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol i gefnogi cyfleoedd gwaith.	(CDS) Busnes a Menter	Cynllun Gwasanaeth CDS 1.1.1.1	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Mawrth 2017	<p>Rydym yn parhau i gefnogi datblygiad menter gymdeithasol yng Nghonwy ac yn ei dro mae hyn yn hwyluso mynediad at hyfforddiant a chyfleoedd gwaith ac yn helpu pobl i fagu hyder i ailgydio mewn byd gwaith. Rydym wedi cefnogi datblygiad 93 o swyddi newydd ers 2003 yng Nghonwy. Dywed adroddiad 'Cyflwr y Sector' Cydweithfa Cymru 2017: 'Mae'r sector busnes cymdeithasol yng Nghymru werth £2.37bn i economi Cymru ac mae'n cefnogi tua 41,000 o swyddi'. Bydd ein cyfraniad at y sector hwn yn parhau yng Nghonwy i mewn i 2017/18 a thu hwnt.</p>
3.2.1	Cwblhau casglu data a dadansoddi ar gyfer Archwiliad Cyflog Cyfartal a nodi a rhoi cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r problemau y soniwyd amdanynt.	Adnoddau Dynol Corfforaethol	Cynllun Gwasanaeth CHR 1.8.5.2	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Ymgwymerwyd ag Archwiliad Cyflog Cyfartal cychwynnol wrth ddatblygu ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol blaenorol a phresennol a chyhoeddwyd y manylion o fewn y dogfennau hynny. Dechreuwyd Archwiliad Cyflog Cyfartal manylach yn 2015 a nodwyd nifer o weithredoedd sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor. Ar hyn o bryd, mae'r Archwiliad Cyflog Cyfartal yn cael ei ddiweddarau a bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi yn ei bryd a chymau pellach eu hystyried ar yr amser hwnnw.</p>
3.2.4	Sicrhau nad yw unrhyw gontract dim oriau yn gorfodi gweithwyr i fod ar gael pan nad yw'r gwaith ar gael a sicrhau nad yw'r rhain yn atal y cyfle i ymgymryd â rhagor o waith.	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Nid ydym yn cyflogi unrhyw staff ar gontractau dim oriau yng Nghonwy. Rydym yn cyflogi gweithwyr ar gontractau hamddenol lle nad oes sicrwydd o oriau ond nid oes gorfodaeth iddynt fod ar gael a gallent wrthod gwaith os nad ydynt ar gael.</p>
3.2.10	Hysbysebu pob swydd yn un llawn amser (lle bo hynny'n bosibl) yn ogystal â rhan-amser er mwyn lleihau effaith gwahanu ar sail rhyw i ferched sy'n gweithio mewn swyddi cyflog isel /rhan-amser. Diwygio'r ffurflen rheoli swyddi gwag i adlewyrchu hyn.	Adnoddau Dynol Corfforaethol			✓	✓	✓					✓	Rhagfyr 2016	<p>Mae ein Ffurflen Hysbysiad Rheoli Swydd Wag yn gofyn i reolwyr nodi'r oriau gwaith yr wythnos, yn hytrach na chadarnhau llawn amser neu ran amser, sy'n annog rheolwyr i ystyried gwahanol oriau cytundebol, gan gynnig cymaint o hyblygrwydd â phosibl. Mae ein safle recriwtio ar y we yn hyrwyddo opsiynau gweithio hyblyg gan gynnwys rhan amser a rhannu swydd ac mae ein ffurflen gwneud cais ar-lein yn gofyn i ymgeiswyr a hoffent ystyried y swydd i'w rhannu yn ogystal ag amser llawn.</p>

**Amcan 4 : Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn Diogelwch personol**

4.1.1	Adolygu Strategaeth Trais ac Ymddygiad Ymosodol.	Iechyd a Diogelwch Corfforaethol	Cynllun Gwasanaeth CHR 1.2.3.7	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		Cafodd y Strategaeth Trais ac Ymosodedd ei diweddarau yn 2016 a bellach caiff ei galw'n Bolisi Amddiffyn Gweithwyr.
4.1.2	Parhau i weithio gyda'n partneriaid trwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i hybu a chynnal y ffaith fod Conwy'n sir ddiogel.	[REG] Diogelwch cymunedol	Cynllun Gwasanaeth REG 1.2.1.1	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Mawrth 2017		<p>Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) yn mynychu gwahanol ddigwyddiadau cymunedol i ddarparu cyngor atal trosedd a chyfeirio at sefydliadau eraill. Gyda help gwirfoddolwyr Gwarchod Cymdogaeth, rydym yn cynnal digwyddiadau aml-asiantaeth rheolaidd ar atal trosedd mewn archfarchnadoedd a chanolfannau siopa ac rydym hefyd yn mynychu digwyddiadau a gynhelir gan sefydliadau eraill. Mae gan y stondin wybodaeth daflenni atal trosedd ac offer gwella diogelwch (e.e. cloeon i wneud cartrefi'n fwy diogel ac yn gaelech i droseddwy eu targedu). Mynychir y digwyddiadau hyn gan wirfoddolwyr, staff PDC, Safonau Masnachu, Swyddogion Diogelwch Cymunedol yr Heddlu lleol a'r Gwasanaeth Tân.</p> <p>Mae'r PDC yn parhau i ariannu gwasanaethau ar gyfer cam-drin sylweddau gyda gweithwyr cymdeithasol diagnosis deuol pwrpasol, adsefydlu preswyl ac arian ar gyfer y Tim Ymateb Cyflym Cyffuriau ac Alcohol (DARRT). Mae'r holl waith a wna'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid yn cyfrannu at y lleihad sydd wedi bod mewn trosedd o flwyddyn i flwyddyn. Rydym wedi parhau i weld gostyngiadau mewn trosedd ieuencid ac mae'r trosedd sy'n cael ei adrodd wedi parhau i ddisgyn. Mae hyn o ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith partneriaeth a gwaith caled a ddarperir gan wasanaethau Conwy. Bellach, mae gennym tua 1400 o barthau dim galw diwahoddiad sy'n rhoi cysur mawr i breswylwyr, yn arbennig gan fod ein poblogaeth hyn yn fawr. Rydym wedi datblygu newyddlen reolaidd i helpu cyfathrebu'n fwy effeithiol ac rydym yn mynychu digwyddiadau yng Nghonwy i hyrwyddo diogelwch y cartref a diogelwch personol.</p> <p>Ychwanegir prosiectau newydd at ein cynllun gweithredu gan fod y cynllun yn ddeinamig. Mae gennym gynrychiolaeth lawn o bartneriaid strategol ar y bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ac mae'r gwaith hwn yn barhaus.</p>
4.1.3	Gwella yn ein swyddogaeth o ran gorfodaeth ac addysg er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys gollwng sbwriel a graffiti.	[REG] Gwarchod y Cyhoedd	Cynllun Gwasanaeth REG 1.2.1.2	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Mawrth 2017		<p>Mae'r gwaith hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth, gyda gorfodaeth a nifer yr hysbyswyr cosb benodedig a gyhoeddir wedi cynyddu i 3906 yn 2016/17, gyda 118 o'r rhain ar gyfer cŵn yn baeddu. Mae'r gwasanaeth hefyd y gweithio mewn partneriaeth â Kingdom ar fentrau addysgol wedi'u hanelu at leihau perchenogaeth cŵn anghyfrifol a thafu sbwriel. Mae ardaloedd â phroblemau cŵn yn baeddu yn parhau i gael eu patrolio a'u monitro gan y Llysgenhadon Cadwch o'n Lân ac mae arwyddion a chamerau taflu sbwriel a chŵn yn baeddu wedi'u codi. Mae'r gwaith hefyd yn cynnwys ymdrin â chwynion lefel isel, e.e. tipio anghyfreithlon.</p> <p>Mae prif swyddog yr ymgyrch wedi cysylltu â Chynghorau Tref gyda'r bwriad o weithio mewn partneriaeth gyda nhw i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ynghylch taflu sbwriel a chŵn yn baeddu ac mae rhai wedi cyfrannu'n barod at y gost o godi arwyddion a defnyddiau traul newydd.</p>
4.1.4	CCTV i gefnogi Landlordiaid Cymdeithasol, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, Cynghorau Tref a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol wrth leihau ymddygiad gwrth-gymdeithasol.	[REG] Gwarchod y Cyhoedd	Cynllun Gwasanaeth REG 1.2.2.10	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			<p>Mae TCC yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Tasg Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol (YGG) bob 6 wythnos mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Tân, yr Heddlu, Tai, Cynghorau Tref, ayb. Ni sy'n arwain ar ddarparu cyngor ar ddefnyddio TCC mewn mannau cyhoeddus ac rydym yn rheoli'r feddalwedd ac yn ymgymryd ag adolygiadau ar gyfer y camerau adleoladwy a ddefnyddir gan y grŵp. Rydym hefyd yn enwebu materion y mae angen gweithredu arnynt e.e. cafodd grŵp mawr o bobl ifanc ym Mae Colwyn oedd yn achosi materion YGG eu cynnwys ar ddogfen yn ôl cais gan TCC. Mae'r gwaith hwn yn parhau.</p>
4.1.5	Cyflwyno 'Parthau Gwahardd Galwyr Di-wahoddiad' effeithiol ar draws CBSC mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a Chonwy Ddiogelach.	[REG] Gwarchod y Cyhoedd	Cynllun Gwasanaeth REG 1.2.2.14	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		<p>Mae gennym tua 1400 o Barthau Rheoli Galw Diwahoddiad unigol (PRhGD) ar waith yng Nghonwy. Mae'r cam hwn wedi'i symud i dasg o fewn Diogelwch Cymunedol er mwyn lleihau achosion o ailgyflawni trosedd lle bo dioddefwr ac YGG i ddiodefwyr a'r sawl sy'n cyflawni'r drosedd.</p>
4.2.1	Gweithio gyda Chynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth i Reoli lefelau Dioddefwyr Cam-drin Domestig Ailadroddus.	REG Diogelwch cymunedol	Un Conwy 1.1.5	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Yn parhau		<p>Rydym yn parhau i ddefnyddio MARAC i reoli nifer y bobl sy'n dioddef trais domestig droeon. Mae nifer yr atgyfeiriadau wedi lleihau gan fod gennym bellach gynllun peilot newydd ar waith o'r enw Pedwar Piler sy'n golygu ein bod yn datrys problem ymlaen llaw, gan atal yr angen i anfon MARAC bob tro i gynnal trafodaeth. Mae Swyddog Cam-drin Domestig y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) yn sicrhau bod y MARAC yn cael ei redeg yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac rydym wedi bod yn adolygu'r broses MARAC i wneud yn siŵr bod ein system yn ateb y galw.</p>
4.2.2	Cynyddu ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc o drais rhywiol.	REG Diogelwch cymunedol	Un Conwy 1.1.8	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Yn parhau		<p>Mae Swyddog Trais Rhywiol Annibynnol i bobl ifanc, wedi'i leoli yn y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ym Mae Colwyn, wedi'i benodi ac wedi ymgysylltu â dros 70 o bobl ifanc yn barod yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth o'r mater ymhlith pobl ifanc. Hefyd, mae'r ysgolion yn cynnig rhai sesiynau Cyswllt Ysgolion ar y mater. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cymorth ac arweiniad ac mae'r gwaith hwn yn barhaus.</p>
4.2.3	Gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu hyfforddiant mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.4.3.18	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016		<p>Mae hyfforddiant ar atal cam-fanteisio'n rhywiol ar blant wedi cael ei gynnal i Swyddogion Gofal Cymdeithasol, Swyddog Hyfforddi Amddiffyn yr Awdurdod Lleol, Gweithwyr Cymdeithasol Addysg a Chydlynwyr ABCh (Addysg Personol a Chymdeithasol) ar gyfer pob ysgol uwchradd/arbennig ac Unedau Atgyfeirio Disgyblion. Darparwyd Hyfforddiant Estynedig hefyd ar Ddiogelwch ar y Rhyngwyd i'r holl staff. Mae hyfforddiant ar Radicaleiddio wedi cael ei ddarparu o'r blaen i staff uwchradd yn 2015 a chynigiwyd hyn i bob Ysgol Gynradd yn ystod 2016.</p>

4.2.4	Parhau i weithio gyda'n partneriaid i wella cefnogaeth i'r teulu cyfan i ddelio â materion Cam-drin Domestig, Iechyd Meddwl a Chyffuriau ac Alcohol.	(SS) Pobl Ddiamddiffyn a (REG) Tai	Cynllun Gwasanaeth SS 1.2.1.4 & Strategaeth Tai Lleol 2.3	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Mawrth 2017	<p>Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio gyda Chymorth i Fenywod Colwyn, Cymorth i Fenywod Cymru a Relate ar y prosiect arbenigol hwn ac maent wedi cefnogi dros 200 o rieni a phlant sydd wedi cael eu heffeithio gan Drais Domestig. Rydym wedi agor ein cyrsiau hyfforddi lleol i bartneriaid Iechyd, Gofal Cymdeithasol a thrydydd parti ac mae yna ymagwedd bartneriaeth at ymateb Conwy i strategaethau Iechyd meddwl, hunan-niwed ac atal hunanladdiad.</p> <p>Mae tua 40 o gleientiaid wedi cael ymyraethau drwy'r Cwmpawd Gwella a ddarperir gan Mind ac mae 27 o ofalwyr cleientiaid Iechyd meddwl wedi cael cymorth drwy wasanaeth Hafal.</p> <p>Rydym yn parhau i ddefnyddio ein harian ar gam-ddefnyddio sylweddau ar gyfer adsefydlu preswyl ac mae cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol yn cwrrd ag asiantaethau partner perthnasol yn ôl yr angen. Mae staff yn mynychu'r Grŵp Defnyddwyr Gwasanaeth ar gyfer cam-ddefnyddio sylweddau, y grŵp Gweithredol Bwrdd Cynllunio Ardal a Grŵp Darparu fel ein bod yn dylanwadu ar strategaeth a swyddogaethau gweithredol gyda phartneriaid.</p>
4.2.5	Cynyddu hyder wrth roi gwybod am Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol drwy gefnogi ymgyrchoedd Cenedlaethol a chodi ymwybyddiaeth.	(REG)	Cynllun Strategol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Yn parhau	<p>Mae Swyddog Trais Rhywiol Annibynnol i bobl ifanc, wedi'i leoli yn y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ym Mae Colwyn, wedi'i benodi ac wedi ymgysylltu â dros 70 o bobl ifanc yn barod yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r mater hwn ymhlith pobl ifanc ac mae ysgolion hefyd yn cynnig rhai sesiynau Cyswllt Ysgol ar y mater hwn. Mae gwaith ar Drais Domestig wedi parhau gyda chysiau hyfforddi i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd adrodd. Mae Swyddog Cam-drin Domestig y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) yn sicrhau bod y broses MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth) yn cael ei gychwyn pryd bynnag y bo'n berthnasol, sy'n bartneriaeth sy'n cynnwys yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ac Iechyd.</p>
4.2.6	Datblygu gwefan Conwy ar Gam-drin Domestig i annog gwelliannau o ran adrodd am ddigwyddiadau ac yn cefnogi ac yn rhoi cyhoeddusrwydd am Ddiwrnod Camdriniaeth Domestig.	(REG)	Cynllun Strategol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Yn parhau	<p>Mae trefnu digwyddiadau ymwybyddiaeth/datganiadau i'r wasg ar gyfer Diwrnod Codi Ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig Rhyngwladol yn un o rolau craidd y Cydlynnydd Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ac rydym yn gwneud hyn bob blwyddyn. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i leihau trosedd ac anhrefn yng Nghonwy a Sir Ddinbych a chynyddu hyder mewn adrodd ar Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Ymhlith y tasgau mae disgwyl i Gonwy Diogelach ryddhau datganiadau i'r wasg ar adrodd ar gam-drin domestig a chefnogi ymgyrchoedd Cenedlaethol a Rhanbarthol. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid trydydd sector i gefnogi codi ymwybyddiaeth a chefnogi llinell gymorth Cymru-gyfan Byw Heb Ofn yr ydym yn parhau i'w hyrwyddo. Bu inni gynnal digwyddiad ar ran Conwy a Sir Ddinbych yn Neuadd y Dref yn Y Rhyl yn ystod y flwyddyn a chwasso siaradwyr gwadd o Fyw Heb Ofn, Dynion yn Erbyn Cam-drin Domestig a llawer o stondinau gwybodaeth eraill.</p>
4.2.7	Conwy a Sir Ddinbych ddiogelach yn darparu cyllid ar gyfer y cynllun Tai Diogelach sydd yn wasanaeth gwella diogelwch ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig.	(REG)	Cynllun Strategol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Yn parhau	<p>Mae Saferhomes yn wasanaeth gosod offer cloi a diogelwch pwrpasol. Mae hwn wedi bod ar waith ers 2006 wedi'i ariannu gan grantiau'r Swyddfa Gartref. Mae'r gwasanaeth yn galluogi i'r rheiny sy'n dioddef cam-drin domestig a nodir gan unrhyw weithiwr proffesiynol yn y maes, i gael gwriad diogelwch cartref ac i unrhyw waith sydd ei angen gael ei wneud. Rheolir y gwasanaeth gan y Tîm Diogelwch Cymunedol ac rydym yn talu am osodwr cloeon cymwys sydd wedi'i wirio'n llawn gan yr Heddlu ynghyd â chynorthwydd benywaidd i ymgymryd â'r gwaith. Cyhoeddir holiaduron boddhad cwsmeriaid ar ôl i'r gwaith gael ei wneud ac mae'r gwasanaeth yn derbyn cyfradd boddhad 100%. Mae risg i'r gwaith hwn yn 2018/19 o ganlyniad i ddiffyg nawdd uniongyrchol. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn edrych ar ariannu'r gwasanaeth hwn drwy ddefnyddio gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fel tîm darparu.</p> <p>Mae'r Cydlynnydd Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn parhau i weithio gydag ein partneriaid trydydd sector i hyrwyddo llinell gymorth Cymru-gyfan Byw Heb Ofn ac i ddefnyddio arian ar gyfer y cynllun Saferhomes trwy gefnogi datganiadau i'r wasg ar adrodd ar gam-drin domestig yn ogystal â chefnogi ymgyrchoedd Cenedlaethol a Rhanbarthol.</p>
4.2.8	Gweithredu'r ymrwymadau a wnaed yn ein Polisi Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ym Mholisi y Gweithle.	Adnoddau Dynol Corfforaethol										✓	Rhagfyr 2016	<p>Mae Polisi Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Merched yn y Gweithle wedi'i weithredu'n llawn yn y gweithle, sy'n cynnwys gwybodaeth ar wahanol sefydliadau cymorth y gall staff gysylltu â nhw. Mae hysbysebion wedi'u rhoi ym mhob tŷ bach cyhoeddus yn hysbysebu'r llinell rhadffôn. Hefyd, mae posteri electronig wedi cael eu rhoi ar yr holl fyrrdau teledu Xibo mewnol ac allanol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu gofynion ar gyfer hyfforddi'r holl staff ar y pwnc hwn ac mae modwl e-ddysgu ar gael drwy borth hyfforddi ar-lein. Bu problemau technegol gyda chyrchu'r porth ac unwaith y bydd hyn wedi'i ddatrys yn llawn, hwn fydd yr hyfforddiant cyntaf i gael ei roi ar waith ar y system hon. Ar hyn o bryd mae peilot o'r modwl Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael ei gynnal o fewn yr AD Corfforaethol i ddatrys unrhyw fân broblemau technegol.</p> <p>Rydym hefyd yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd ar nifer yr ymweliadau sydd â'r dudalen fewnrwyd y mae'r polisi arni.</p>
4.3.1	Lleihau troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr drwy gyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth ar sut i osgoi bod yn ddioddefwr trosedd a chodi ymwybyddiaeth gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.	REG Partneriaeth Diogelwch Cymunedol 1.1	Cynllun Strategol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Yn parhau	<p>Rydym wedi bod yn gweithio ar leihau Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol ac mae adrodd wedi lleihau o fis i fis ar gyfer y rheiny sy'n dioddef droeon. Mae gwirfoddolwyr Gwarchod y Gymdogaeth wedi parhau i fynychu digwyddiadau cymunedol i hyrwyddo atal trosedd a gwella diogelwch a hyrwyddo popeth sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol.</p>

4.3.2	Cynnal arolygon diogelwch cartref a busnes i dynnu sylw at y mesurau y gellir eu cymryd i leihau'r siawns o ddod yn ddioddefwr trosedd.	REG Community Safety Partnership 1.4REG Partneriaeth Diogelwch Cymunedol 1.4	Cynllun Strategol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Yn parhau	Rydym yn parhau i ymgymryd â'r gwaith hwn a chynhelir cyfartaledd o 5 arolwg busnes y mis a 4 arolwg cartref. Bydd y gwaith hwn yn barhaus gan ei fod yn cael ei ddarparu gan yr Heddlu. Rydym newydd ddarparu peth offer gwella diogelwch i'r heddlu er mwyn gallu parhau â'r gwaith hwn.
4.3.3	Gweithio gyda phartneriaid ac asiantaethau amrywiol i wella ymwybyddiaeth pobl hŷn o'r peryglon o ran cynlluniau masnachol ac ariannol. (Er enghraifft rhyddhau ecwiti a galw diwahoddiad).	Partneriaethau COG 3 - unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Mawrth 2017- Mawrth 2018	Cafodd y cam hwn ei fewnbynnu gan y Swyddog Strategaeth Datblygu Pobl Hŷn i mewn i'r Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda yng Nghymru. Gan nad yw'r swydd hon y bodoli mwyach, mae'r Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Well yng Nghymru bellach yn dod o fewn COG 3. Bydd y grŵp yn cwrrd ym mis Medi i adolygu'r Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda yng Nghymru ac yn penderfynu pa gamau y byddant yn gweithio arnynt yn y flwyddyn i ddod.  Yn y cyfamser, erbyn hyn, mae gan y Partneriaeth Diogelwch Cymunedol oddeutu 1400 parth galw diwahoddiad sy'n rhoi cysur mawr i breswylwyr, yn arbennig am fod gennym boblogaeth fawr o bobl hŷn, ac maent wedi datblygu newyddlen reolaidd i'w helpu i gyfathrebu'n fwy effeithiol, ac yn mynychu nifer o ddiwyddiadau yng Nghonwy i hyrwyddo diogelwch y cartref a diogelwch personol.
4.3.4	Presenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol gyda phartneriaid lleol megis Gwirfoddolwr NHW Llandudno i hyrwyddo diogelwch yn y cartref.	REG Partneriaeth Diogelwch Cymunedol 1.1	Cynllun Strategol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Yn parhau	Rydym wedi bod yn gweithio ar leihau Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol ac mae nifer y cofnodion o bobl sy'n dioddef droeon wedi lleihau o fis i fis ac rydym wedi bod y defnyddio'r grymoedd newydd a roddwyd i ni gan y Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol. Mae gwirfoddolwyr Gwarchod y Gymdogaeth wedi parhau i fynychu digwyddiadau cymunedol i hyrwyddo atal trosedd a gwella diogelch i bobl agored i niwed yng Nghonwy a Sir Dinbych a hyrwyddo popeth sy'n gysylltiedig â diogelwch cymunedol.

**Amcan 5 : Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn Cynrychiolaeth a Llais**

5.1.1	Cyflwyno Hyfforddiant Cydraddoldeb ar gyfer Aelodau Etholedig.	Adnoddau Dynol Corfforaethol	Cynllun Gwasanaeth CHR 1.8.5.8	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Gwahoddwyd Aelodau Etholedig i hyfforddiant Trosedd Casineb ym mis Ebrill 2016. Trefnwyd hyfforddiant pellach i Aelodau Etholedig ar Gydraddoldebau, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a chyfrifoldebau Aelodau, yn rhan o Ymsefydlu Aelodau Etholedig ar ôl yr etholiad ym mis Mai. Cynhaliwyd hyfforddiant ar 28 Mehefin 2017 a chafodd groeso. Mae hyfforddiant Trosedd Casineb pellach yn cael ei drefnu trwy'r Swyddog Cydlynid Cymunedol.
5.1.3	Mae Cynghorau Ysgol yn parhau i chwarae rhan allweddol yn y penderfyniadau a wneir mewn ysgolion.	Addysg		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016 ac yn barhaus	Mae gan bob ysgol gyngor ysgol sy'n cwrrd yn rheolaidd ac yn darparu llais allweddol gan bobl ifanc ym mhroses gwneud penderfyniadau ysgolion.
5.1.4	Darparu hyfforddiant Ysgolion Cynradd ac Uwchradd i gynghorau ysgol ar fwlio ar sail Lesbïaid, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol a hunaniaeth.	Addysg		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016 ac yn barhaus	Mynychodd pob ysgol uwchradd, Ysgol y Gogarth a 26 ysgol gynradd ein cynadleddau gwrth-fwlio i baratoi at yr Wythnos Gwrth-fwlio ym mis Tachwedd 2016. Cafodd y cynadleddau eu cefnogi gan y Comisiynydd Plant, a gynhaliodd gweithdai rhyngweithiol, ac Actionwork a berfformiodd sioe deithiol. Prif bwrpas y cynadleddau oedd ysbrydoli athrawon a chynrychiolwyr y cynghorau ysgol i gynnal gweithgareddau yn eu hysgolion i nodi wythnos gwrth-fwlio. Mae yna ddigon o dystiolaeth ar Trydar a gwefannau ysgol bod llawer o ddisgyblion a fynychodd wedi cynnal gweithgareddau ar gyfer eu cyfoedion. Ymhlith yr enghreifftiau mae: Disgyblion 6ed dosbarth Ysgol Y Creuddyn a wnaeth fideo ac a gynhaliodd weithdai ar gyfer disgyblion blwyddyn 7 ac 8; cynhaliodd disgyblion Blwyddyn 6 Pentrefoelas weithdai ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a datblygodd y Cyfnod Sylfaen fersiwn i ddisgyblion o'r polisi gwrth-fwlio a rhoddasant flwch teimladau yn yr ysgol er mwyn i'r plant allu adrodd ar fwlio; cymerodd blant Ysgol Capelulo ran mewn gweithgareddau trwy gydol yr wythnos (a oedd yn cynnwys y dosbarthiadau babanod yn ysgrifennu a pherfformio cân) ac yna fe gyflwynasant eu gwaith mewn gwasanaeth arbennig; Cynhaliodd Ysgol Maes Owen 2 wasanaeth, a gwnaethant ffilmiau byr a chodi arddangosfeydd ar hyd holl hyd eu coridor.
5.2.5	Parhau i ddatblygu a chryfhau perthnasoedd gyda'r grŵp Budd-ddeiliaid a nodwyd fel rhan o weithgareddau'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru a grwpiau cymunedol cysylltiedig a gwirfoddol eraill.	AD Corfforaethol gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Yn barhaus drwy gydol CCS	Y tro diwethaf y buodd y grŵp rhanddeiliaid yn rhan ffurfiol o ymgysylltu ac ymgynghori oedd pan oedd Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn cael eu paratoi yn 2016. Mae cysylltiadau anffurfiol wedi'u gwneud gydag aelodau'r grŵp a gofynnwyd wrthynt am adborth, a buont hefyd yn rhan o'r ymgynghoriad ar gyfer y gwaith ar Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Mae digwyddiad ymgysylltu pellach yn cael ei drefnu ar gyfer y gwanwyn 2018 i ddarparu adborth ar gynnydd hyd yma ar amcanion cydraddoldeb Gogledd Cymru ac i weld a oes yna unrhyw flaenoriaethau eraill y dylem fod yn canolbwyntio arnynt.  Hefyd, mae perthynas bositif wedi'i sefydlu gyda Grŵp Mynediad Conwy a thrwy gydol y flwyddyn mae swyddogion wedi bod y mynychu'r grŵp i ymgynghori gydag aelodau ar wahanol gynigion a allai effeithio ar fynediad.
5.2.6	Gwella lefel o ymgysylltu a wnaed wrth gyflawni proses Asesu Effaith Cydraddoldeb ar draws yr holl wasanaethau.	Pob Gwasanaeth		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ar unwaith ac yn barhaus	Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb o dan y ddyletswydd i ymgysylltu wrth ymgymryd ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a gwneir hyn yn ôl yr angen ac yn ôl natur y polisi neu'r arfer sy'n cael ei asesu, gan gymryd i ystyriaeth cymesuredd a pherthnasedd. Bu rhai darnau sylweddol o ymgysylltu yn y cyfnod hwn; un o bwys yw'r ymgysylltu sy'n gysylltiedig â'r Asesiad Lles a'r Cynllun Corfforaethol. Fel arfer bydd yr ymgysylltu gyda'r defnyddwyr gwasanaeth hynny sy'n cael eu heffeithio, a/neu staff ac undebau llafur, a gyda sefydliadau sy'n cynrychioli pobl o wahanol grwpiau gwarchoddedig. Mae dealltwriaeth ynghylch yr agwedd hon ar y broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cynyddu a gwella'n sylweddol o fewn gwasanaethau.

**Amcan 6 : Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn mynediad i wybodaeth, gwasanaethau a'r amgylchedd**

6.1.1	Cynnwys pobl o grwpiau gwarchoddedig gwahanol wrth ddylunio systemau / gwefannau i ddileu rhwystrau i gael mynediad i Wybodaeth a Gwasanaethau.	[ICT] Cymorth Technegol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ar unwaith ac yn barhaus	<p>Mae'r fframwaith ar gyfer y safleoedd a reolir yn gorfforaethol yn dilyn egwyddorion hygrychedd a amlinellwyd ym Menter Hygrychedd y We Consortiwm Y We Fyd-Eang ac arfer gorau arall, gan gynnwys yr hyn a ddisgrifir gan <a href="http://www.gov.uk">http://www.gov.uk</a>. Dyluniwyd yr ymagwedd hon i ymestyn mynediad i wybodaeth ar-lein drwy ddileu namau a allai creu rhwystrau ar gyfer rhai dyfeisiau neu dechnolegau (cynorthwyol) a ddefnyddir gan ymwelwyr â'r safleoedd.</p> <p>Cyn i'r gwaith ar ddatblygu'r safle newydd ddechrau, cafwyd hyfforddiant ar hygrychedd ac archwiliad gan y Shaw Trust. Ymgwymerwyd â hyfforddiant pellach gan SiteImprove a ddarparodd hefyd y gwasanaeth sicrhau ansawdd awtomataidd a ddefnyddir yn fewnol i brofi cydymffurfiaeth y gwefannau â'r safonau uchod. Caiff cydymffurfiaeth ei fesur yn allanol yn yr adroddiad Better Connected blynyddol gan Socitm.</p> <p>Yn ogystal â gwelliannau i safonau technegol, golyga'r dyluniad ymatebol bod y safleoedd newydd yn gweithio yn y ffordd orau posibl ar draws ystod eang o ddyfeisiau a ffactorau ffurf (Cyfrifiaduron Personol, llechi, ffonau clyfar, setiau teledu clyfar, ayyb), gan hwyluso gwell mynediad i grwpiau tu hwnt i gyfrifiaduron pen desg yn y cartref gyda chyswllt rhyngwyd sefydlog. Ychydig ar ôl y lansiad, mynychodd Tim y We Fforwm Mynediad Conwy i gyflwyno a derbyn adborth. Ni nododd y grŵp unrhyw broblemau mynediad penodol ond fe wnaeth gynnig adborth ar y safle yn gyffredinol.</p> <p>Roedd gan y safle cyhoeddus dwyieithog gyfnod adolygu mewnol estynedig wedi'i ddilyn gan ryddhad beta cyhoeddus 2 fis i gasglu adborth gan bob ymwelydd â'r safle cyn ei lansio. Roedd gan bob tudalen nodwedd 'adborth defnyddiwr' sy'n galluogi pobl i roi sgôr ar ei budd ac i ychwanegu sylwadau testun. Mae'r un oferyn adborth byd-eang yn dal i fod ar gael i bob ymwelydd ac mae'r data yn gyrru adroddiadau bodddhad yn ogystal â nodi materion gwybodaeth a mynediad y mae angen eu datblygu ymhellach neu rannu gyda'r gwasanaeth Cyngor perthnasol yn rhan o broses o welliant parhaus.</p>
6.1.2	Datblygu taflen / ganllaw profedigaeth sy'n cynnig cyngor i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau presennol i'r rhai sy'n profi marwolaeth sydyn yng Nghonwy a'i hyrwyddo i weithwyr proffesiynol a chymunedau.	Partneriaethau COG 7 - Gofal Diwedd Oes		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Mawrth 2017	<p>Mae taflen profedigaeth 'Pan fydd rhywun yn marw' wedi'i gynhyrchu ac mae 2000 o gopïau wedi'u hargraffu. Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori ar Gynllunio Gofal Uwch, Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, Byw Nawr/Live Now. Gwasanaethau Diwedd Oes Conwy a DeadSocial.org ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Mae'r taflenni wedi cael eu dosbarthu i feddygydd o fewn Conwy, Trefnwyr Angladdau, ysbytai, timau nyrso ardal gymunedol, Crwner, yr Amlogsga a'r cyhoedd. Mae'r daflen wedi cael ei hysbysebu gyda Newyddlen PPC a Bwletin Conwy.</p>
6.1.3	Cefnogi agendâu cynhwysiant digidol cenedlaethol a lleol.	[CDS] Diwylliant a Gwybodaeth	Cynllun Gwasanaeth CDS 1.1.2.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Mawrth 2017	<p>Rydym wedi parhau i gefnogi agendâu cynhwysiant digidol cenedlaethol a lleol ac ym mis Mawrth 2017 cawsom achrediad Siarter Digidol Cymru i gydnabod ein rôl wrth ddarparu sgiliau digidol a chefnogi pobl i allu mynd ar-lein. Yn ddiweddar, bu inni ymddangos ym mlog Pythefnos Trechu Tlodi ar gyfer gwaith partneriaeth gyda JCP a Chymunedau Digidol Cymru. Mae'r gwaith hwn yn llwyddiant ac fe fydd yn barhaus.</p>
6.1.4	Datblygu Strategaeth Wybodaeth ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell i wella mynediad i wybodaeth.	[CDS] Diwylliant a Gwybodaeth	Cynllun Gwasanaeth CDS 1.7.2.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Mae strategaeth ddrafft wedi'i chynhyrchu er y bydd angen i hon gael ei hadolygu a'i diweddarar eto yn dilyn y cynnig i Lyfrgelloedd weithredu fel hybiau cymunedol.</p>
6.1.5	Chwilio am gyfleoedd i ehangu mynediad Wi-Fi i westeion lle bo hynny'n briodol.	[ICT] Cymorth Technegol	Cynllun Gwasanaeth ICT 1.9.13.10	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Mae Wi-Fi gwesteion rhad ac am ddim rhwng Porth Eirias a Phier Bae Colwyn nawr ar waith. Hefyd, mae Wi-Fi gwesteion rhad ac am ddim ar gael ar draws safleoedd y Cyngor, ac mae hyn yn cynnwys cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd. Gall ysgolion ddewis defnyddio'r cyfleuster ar gais. Rydym hefyd yn ymchwilio i osod y Wi-Fi ym mhob Pwynt Mynediad Gwybodaeth Twristiaid o gwmpas y Sir a byddwn yn ystyried ei ymestyn ymhellach pan fydd cyfleoedd am grantiau'n codi a lle mae yna dystiolaeth bod y gwasanaeth y cael ei ddefnyddio. Rydym hefyd yn ymchwilio i ardaloedd lle gellir ymestyn y Wi-Fi gwesteion presennol i ardaloedd gwledig.</p>
6.1.6	Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Cynhwysiant Ariannol ar gyfer Staff CBSC er mwyn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth.	[RBA] Ymyrraeth a Hawliau Lles	Cynllun Gwasanaeth RBA 1.4.5.3	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Fel etifeddiaeth o Brosiect Cynhwysiant Ariannol ar y cyd rhwng Conwy a Sir Ddinbych, rhoddwyd 500 trwydded e-ddysgu Cynhwysiant Ariannol i CBSC i'w defnyddio erbyn 31 Mawrth 2017. Erbyn y dyddiad hwn, roedd 419 o'r 500 o drwyddedau wedi'u defnyddio, a themlwyd bod hyn yn ganlyniad rhagorol i BSC a'i fod yn dangos ein hymrwymiad i'r agenda cynhwysiant ariannol. Hefyd, roedd hyfforddiant ar gael i Aelodau.</p>
6.1.7	Codi ymwybyddiaeth o gyfleuster i hawlio budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor ar-lein ac i landlordiaid i gael mynediad i ddata budd-daliadau ar y we.	[RBA] Budd-daliadau ac Asesiadau Ariannol	Cynllun Gwasanaeth RBA 1.4.5.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	<p>Rydym yn weithredol wrth hyrwyddo'r defnydd o'n gwasanaethau ar-lein i hawlio Budd-dal Tai / Gostyngiad Treth y Cyngor ac yn defnyddio'r cynnyrch gweld Mynediad Hawlydd a Mynediad Landlord, drwy annog y defnydd o'r gwasanaethau hyn i'r cyhoedd dros y ffôn, yn ein Swyddfeydd Budd-daliadau Ardal ac ar ein llythyrau hysbysu. Mae cyfrifiaduron ar gael gennym i'r cyhoedd eu defnyddio yn Ardaloedd Aros ein holl Swyddfeydd Budd-daliadau Ardal gyda staff ar law i helpu pan fydd angen. Yn y flwyddyn ariannol 2016/17, mae 534 o gwsmeriaid wedi gwneud eu hawliau am Fudd-dal Tai/Gostyngiad Treth y Cyngor drwy ddefnyddio'r ffurflenni hawlio ar-lein, sy'n gynydd ers y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a oedd yn 404. Nifer y tanysgriadau gweithredol ar gyfer y Cynnyrch Mynediad Landlordiaid yw 71 a'r Cynnyrch Mynediad Hawlydd yw 140.</p> <p>Bellach, mae pob ysgol wedi cael mynediad hunanwasanaeth i edrych ar hawliau prydau ysgol am ddim i blant eu hysgolion mewn amser real, yn hytrach na gorfod aros am restr wythnosol.</p>

6.1.8	Cefnogi defnyddwyr gwasanaeth wrth ddelio â'r newidiadau parhaus a gyflwynwyd gan Ddeddf Diwygio'r Gyfundrefn Les 2012, yn cynnwys Credyd Cynhwysol, Uchafswm Budd-daliadau, newidiadau i Fudd-dal Tai, ac ati, gan sicrhau bod yr hawlwr yn gwybod eu hawliau ac yn derbyn yr hawliadau cywir.	[RBA] Budd-daliadau ac Aseidiadau Ariannol	Cynllun Gwasanaeth RBA 1.4.5.5	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Dechreuodd Credyd Cynhwysol (CC) gael ei hawlio yng Nghonwy o 04 Mai 2015 ond ar hyn o bryd dim ond ceiswyr gwaith sengl sy'n gwneud cais o'r newydd a wahoddir i hawlio CC. Mae CBS Conwy yn cael arian gan DWP i gefnogi cwsmeriaid i wneud hawl ar-lein ac i ddarparu Cymorth Cyllidebu Personol (CCP) lle bo angen. Bu nifer y bobl sy'n defnyddio'r CCP yn gymharol araf er er bod wedi edrych ar ffyrdd i'w gyflymu e.e. cynllun peilot i ddarparu'r gwasanaeth yn y Ganolfan Gwaith, deunydd hyrwyddo, a thrafodaethau gyda'r Ganolfan Gwaith i sicrhau eu bod yn hyrwyddo'r gwasanaeth yn eu trafodaethau gyda chwsmeriaid. Rydym yn parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r DWP i drafod a monitro effaith ac i sicrhau ein bod yn gwneud popeth y gallwn i gefnogi pobl Conwy.  Bydd y gwasanaeth Digidol CC yn fyw yng Nghonwy o tua mis Chwefror 2018 ac ar y pwynt hwn bydd y porth ar gyfer hawlio CC yn cael ei agor i hawliau newydd gan gyplau a theuluoedd hefyd (ac eithrio'r rheiny sydd â mwy na 2 o blant) a bydd yn cynnwys pobl sydd cynt wedi hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cymorth Cyflogaeth, a Chredydau Treth. Rydym yn aros am ddyddiad diwygiedig ar gyfer pryd y bydd cartrefi sydd â mwy na 2 o blant yn gallu hawlio CC.  Mae'r cam hwn yn barhaus a byddwn yn dal ati i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth.
6.1.9	Ariannu a pheilotia Cyfrifiannell budd-daliadau ar-lein ac adolygu ei ddefnydd er mwyn ystyried a ddylid ei ymestyn am gyfnod pellach.	[RBA] Budd-daliadau ac Aseidiadau Ariannol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Cynhaliodd y Gwasanaeth Budd-daliadau gynllun peilot o'r defnydd o Gyfrifiannell Budd-daliadau / Cyllidebu Polisi ar Waith am gyfnod o 12 mis. Cost y cynnyrch oedd £7,000 +TAW y flwyddyn. Gwnaed y penderfyniad nad oedd y cynnyrch yn gost effeithiol felly ni wnaethom adnewyddu'r contract. Mae cynnyrch eraill ar gael sy'n rhad ac am ddim a defnyddir y rhain i helpu a chefnogi ein cwsmeriaid pan fo angen.
6.1.10	Cwrdd â landlordiaid sector preifat i fynd drwy newidiadau i system fudd-daliadau fel bod ganddynt well dealltwriaeth o hawliau tenantiaid a'r anawsterau maent yn eu hwynebu yn dilyn Diwygio'r Gyfundrefn Les.	[RBA] Budd-daliadau ac Aseidiadau Ariannol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Rydym wedi cwrdd â Landlordiaid Preifat i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ar Ddiwygio Lles. Pan fydd Bwrdeistref Sirol Conwy yn symud i Wasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol yn 2018, bydd hyn yn cynyddu nifer y bobl ar Gredyd Cynhwysol sy'n cynnwys yr elfen Cost Tai. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i gynllunio ar gyfer hyn. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar Becyn Cymorth Awdurdod Lleol a byddwn yn llunio Cynllun Gweithredu i gynnwys sut a phryd rydym yn mynd i gyfathrebu gyda rhanddeiliaid (sy'n cynnwys landlordiaid preifat). Mae cyflwyniad wedi'i drefnu er mwyn i'r DWP wneud cyflwyniad i gyfarfod y Gymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preifat ym mis Tachwedd 2017. Bydd y gwaith hwn yn barhaus.
6.1.11	Cais am gyllid pellach i barhau i ariannu Ymgynghorydd Lles Budd-daliadau sy'n cynnal cyfweiliadau cyllidebu gyda defnyddwyr gwasanaethau i'w cefnogi i ddeall eu hawliau budd-daliadau i sicrhau eu bod yn cael y cymorth ariannol sydd ei angen arnynt.	[RBA] Budd-daliadau ac Aseidiadau Ariannol											Rhagfyr 2016	Yn 15/16 cawsom arian gan DWP a bu inni benodi unigolyn i ddarparu cymorth cyllidebu i bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol. Ar yr adeg honno roedd yr arian yn talu am y swydd ychwanegol hon yn llawn. Yn 2016, cafodd y cyllid ei leihau'n sylweddol a gwnaed y penderfyniad nad oeddem yn gallu cynnal y swydd ychwanegol mwyach. Caiff cymorth cyllidebu ei ddarparu o hyd i gwsmeriaid, fodd bynnag, mae'r gwaith hwn wedi'i amsugno gan gydweithwyr o fewn y tîm. Bellach, caiff hyn ei ystyried yn fusnes fel arfer.
6.1.12	Sicrhau bod Partneriaid Busnes TG yn cynnwys Cyswllt TG Anabledd wrth ymdrin â cheisiadau am offer TG arbenigol / ceisiadau gan staff anabl.	[ICT] Cymorth Technegol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Chwefror 2017	Mae'r holl Bartneriaid Busnes TG yn cynnwys y Swyddog Cyswllt Anabledd TG wrth ymdrin â cheisiadau am gefnogaeth/cymorth ar gyfer offer/gofynion TG arbenigol gan staff anabl. Mae hyn wedi gwella'r gwasanaeth i staff anabl yn fawr.
6.1.13	Cyhoeddi Newyddlen Cydraddoldeb Staff bob dwy flynedd i godi ymwybyddiaeth staff o faterion a deddfwriaeth cydraddoldeb presennol.	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016 <del>ae yn barhaus</del> Mawrth 2018	Cafodd cyhoeddi'r cylchlythyr cyntaf ei ohirio o ganlyniad i flaenoriaethau eraill ac adnoddau cyfyngedig ond mae'r rhifyn cyntaf i fod i gael ei gyhoeddi erbyn Rhagfyr 2017.
6.1.14	Parhau i ddatblygu Pwynt Mynediad Sengl Conwy.	(SS) Lles Cymunedol	Cynllun Gwasanaeth SS 1.4.6.2	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Bellach mae tîm Un Pwynt Mynediad wedi'i sefydlu ac mae cynnydd da yn cael ei wneud wrth gasglu ystadegau sylfaenol a data statudol. Rydym yn parhau i weithio ar welliannau drwyddo draw ac mae hyn bellach yn fusnes fel arfer.
6.1.15	Cytuno a Gweithredu protocol diwygiedig Sipsiwn-Teithwyr ar gyfer Gwersylloedd Diawurdod.	(REG) Gwasanaethau Tai		✓									Rhagfyr 2016	Mae Protocol Gogledd Cymru ar gyfer gwersylloedd wedi'i ddatblygu trwy Fforwm Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru a'i gymeradwyo gan y Cabinet. Mae gweithdrefnau manwl ar gyfer rheoli a delio â gwersyll wedi'u datblygu ond nid yw'r canllaw manwl wedi'i gwblhau eto. Mae'r gweithdrefnau hefyd yn perthnasu i gysgu ar y stryd yn y Sir.
6.1.16	Gwreiddio y cysyniad o roi gwerth ar ddewis unigolion a hyrwyddo gwerth dewis iaith a diwylliant, trwy gynllun gweithredu Mwy na Geiriau.	(SS) Lles Cymunedol		✓									Ar unwaith ac yn barhaus	Mae'r cysyniad o rhoi gwerth i ddewis unigolion a'u dewis iaith a diwylliant wedi'i fewnosod ym mhopeth a wnawn. Rydym wedi bod yn ymgymryd yn rhagweithiol â'r 'Cynnig Actif' ac wedi cael ein siomi o'r ochr orau gyda nifer yr unigolion sy'n dymuno i'w gohebiaeth fod yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ogystal â nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n dymuno i'w gwasanaeth gael ei gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallwn gofnodi dewis iaith y defnyddiwr ar ein systemau, a gallwn ofyn i'r gofal dilynol barchu'r dewis hwnnw. Ymgymmerir ag ymwybyddiaeth o'r 'Cynnig Actif' yn rhan o'r rhaglen Fframwaith Gofal Cymdeithasol ac Ymsefydlu, y mae staff mewnol ac allanol yn ei mynychu. Rydym wedi cynnal nifer o sesiynau gyda staff gan ddefnyddio'r defnyddiau a'r fideos sydd ar gael yn cefnogi'r ymagwedd 'Mwy Na Dim ond Geiriau'. Mae pob siaradwr Cymraeg ar draws yr Awdurdod yn gwisgo cortyn iaith Gwaith ac mae dysgwyr Cymraeg yn gwisgo rhai Dysgwyr. Wrth ddatblygu'r manylebau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau newydd, mae'r gallu i ddarparu gwasanaethau yn eu dewis iaith yn faen prawf allweddol.

6.1.17	Diweddarau'r llyfryn 'Seremonïau yng Nghonwy' i ymgorffori priodasau o'r un rhyw	Cofrestrydd		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Mae'r llyfryn presennol yn cynnwys gwybodaeth ar briodasau o'r un rhyw.
6.2.1	Pan fo'n ddichonadwy gwneud hynny'n ariannol, rhoi'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ar waith fel bod adeiladau ysgolion, adnoddau athrawon a phrofiadau dysgu disgyblion yn addas at y pwrpas.	[EDU] Gwasanaeth a Chymorth Ysgol	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.1.7	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Mawrth 2017	Mae cynnydd ar brosiectau moderneiddio ysgolion wedi parhau, gydag Ysgol Y Gogarth bron â'i gorffen, ac mae gwaith wedi'i wneud ar Ysgol Sŵn y Don, Ysgol Nant y Groes, Caerhun a Threfriw, Ysgol Awel y Mynydd, gyda gwaith yn mynd rhagddo gyda'r cynnydd yn amrywio o ysgol i ysgol. Mae rhagor o waith yn dal i gael ei nodi, e.e., mae angen rhagor o ystafelloedd dosbarth ar Lan Gele a Glan Morfa. Bydd y gwaith hwn yn parhau'n unol â'n Rhaglen Moderneiddio Ysgolion i sicrhau bod adeiladau ein hysgolion, adnoddau addysgu a phrofiadau dysgu disgyblion yn ateb y galw.
6.2.2	Archwilio cyfleoedd i godi tâl am barcio mewn ardaloedd addas.	[ERF] Rheolaeth Traffig a Rhwydwaith	Cynllun Gwasanaeth ERF 1.9.6.16		✓					✓			Rhagfyr 2016	Cafodd cyfleoedd ar gyfer cyflwyno taliadau parcio eu cyflwyno i Graffu Cwsmeriaid a Chabinet Chwefror 2016. Cefnogodd Craffu Cwsmeriaid yr argymhellion. Cyfeiriodd Cabinet yr argymhellion nôl i'r Cyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen Cwsmeriaid a Chymunedau i'w hystyried ymhellach.
6.2.3	Mapio llwybrau cerdded a beicio presennol yn unol â gofynion Deddf Teithio Llesol.	[ERF] Rheolaeth Traffig a Rhwydwaith	Cynllun Gwasanaeth ERF 1.9.6.18		✓	✓				✓	✓		Rhagfyr 2016	Cynhaliwyd ymgynghoriaeth ac mae mapio wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Dywed yr adborth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru bod angen mân ddiwygiadau i'r wybodaeth sydd yn y broses o gael ei hail-gyflwyno.
6.2.5	Adolygu dyfodol statws meysydd parcio am ddim.	[ERF] Rheolaeth Traffig a Rhwydwaith	Cynllun Gwasanaeth ERF 1.9.6.20		✓					✓			Rhagfyr 2016	Cyflwynwyd argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2016. O ganlyniad, rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i Ddeiliad y Portffolio i adolygu trefniadau taliadau fesul maes parcio. Mae'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig wedi'i ddrafftio ar gyfer codi tâl mewn meysydd parcio ac rydym yn trafod opsiynau amgen posibl gyda 2 gyngor tref.
6.2.7	Parhau i gynnal "perfformiadau hamddenol" yn ein Theatrau i dderbyn defnyddwyr gwasanaeth sydd ag anableddau amrywiol ac anableddau dysgu.	Theatrau a Chynadleddau			✓								Ar unwaith ac yn barhaus	Yn dilyn llwyddiannau blaenorol, mae perfformiadau hamddenol wedi cael eu trefnu ar gyfer y pantomeim ac rydym yn gobeithio ymestyn hyn i gynrychiadau teithiol eraill lle bo'n bosibl. Buodd Theatr Colwyn yn cynnal sesiynau sgrinio hamddenol o'r rhaglen sinema ac yn 16/17 dechreusant bartneriaeth gyda The Dukes Theatre, Lancaster, i gynnal rhaglen o sesiynau sgrinio Cyfeillgar i Bobl â Dementia ar gyfer 17/18.
6.2.8	Parhau i ddefnyddio dehonglwyr laith Arwyddion Prydain ar gyfer rhai perfformiadau a defnyddio capsïynau lle bo hyn yn bosibl.	Theatrau a Chynadleddau			✓								Ar unwaith ac yn barhaus	Cynhaliodd Venue Cymru nifer o berfformiadau a chanddynt BSL a disgrifiadau sain drwy gydol 16/17 ar y cyd â'r cwmnïau teithiol a fuodd yn ymweld â'r theatr. Byddwn yn parhau i wneud hynny wrth fynd ymlaen i gyfnod 17/18 a'r bwriad yw datblygu'r gwasanaeth hwn ymhellach.
6.2.9	Gwella trefniadau monitro er mwyn cydymffurfio â'r broses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.	Adnoddau Dynol Corfforaethol	Cynllun Gwasanaeth CHR 1.8.5.13	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2016	Caiff agendâu Cyngor eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) yn cael eu cynnal yn ôl yr angen ac mae hyn hefyd yn helpu i wella dealltwriaeth o berthnasedd a'r angen am AEG ymhlith uwch reolwyr a swyddogion. I sicrhau bod gwasanaethau'n cynnal AEG pan fyddant yn datblygu eu cynigion, caiff y blaengynllun gwaith hefyd ei adolygu o bryd i'w gilydd ac anfonir e-byst at swyddogion i'w hatgoffa i ystyried cynnal AEG lle bo'n berthnasol. Hefyd, mae gwasanaethau'n enwebu Eiriolwyr AEG o bob tîm rheoli i sicrhau bod rhywun yn herio eu gwasanaeth unigol pan fo arferion a pholisïau'n cael eu datblygu i sicrhau eu bod yn meddwl am gynnal AEG yn ystod cyfnod ffurfiannol y polisi neu arfer.
6.2.13	Asesu'r angen am brosiectau tai â chymorth ac adolygu'r ddarpariaeth bresennol.	(REG) Gwasanaethau Tai	Strategaeth Tai Lleol 3.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Tymor byr	Caiff yr angen am brosiectau tai â chymorth eu hasesu'n barhaus ar y cyd â'r galw / angen am wasanaethau. Gwneir yr adolygiadau ar gylch blynyddol a phob tair blynedd. Caiff unrhyw argymhellion ar gyfer ailfodelu, dadgomisiynu neu gomisiynu eu cymeradwyo gan y Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl.
6.2.17	Nodi a diwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.	(REG) Gwasanaethau Tai	Strategaeth Tai Lleol 3.10	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Tymor byr	Cynhaliodd Opinion Research Services waith maes ar ran Conwy a Sir Ddinbych i baratoi at yr Asesiad Sipsiwn a Theithwyr a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru cyn ei gymeradwyo gan weinidogion. Bellach, mae'r asesiad wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.
6.2.21	Datblygu strategaeth tai fforddiadwy.	(REG) Gwasanaethau Tai	Strategaeth Tai Lleol 5.1	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Tymor byr	Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i amlygu'r angen i gynyddu cyflenwad tai fforddiadwy'r Sir. Mae Asesiad Marchnad Tai Lleol 2016 wedi'i gynhyrchu ynghyd â Chynllun Darparu Tai Fforddiadwy sydd wedi cael ei rannu gyda'r Tîm Uwch Arweinyddiaeth a gyda'r Bartneriaeth Tai Strategol. Mae gweithgor aelodau/swyddogion wedi cael ei sefydlu i ystyried mecanweithiau darparu gan ddefnyddio eiddo presennol yn ogystal ag adnoddau CBSC (tir a mynediad i gyllid). Mae Tai Fforddiadwy yn flaenoriaeth yn y cynllun Corfforaethol nesaf.
6.2.24	Trwy fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, rhoi'r Polisi Tai Fforddiadwy ar waith er mwyn darparu tai fforddiadwy i bobl leol.	(REG) Gwasanaethau Tai	Cynllun Gwasanaeth REG 1.3.1.4		✓	✓	✓			✓	✓		Mawrth 2017	Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i amlygu'r angen i gynyddu cyflenwad tai fforddiadwy'r Sir. Mae Asesiad Marchnad Tai Lleol 2016 wedi'i gynhyrchu ynghyd â Chynllun Darparu Tai Fforddiadwy sydd wedi cael ei rannu gyda'r Uwch Dim Arweinyddiaeth a gyda'r Bartneriaeth Tai Strategol. Mae gweithgor aelodau/swyddogion wedi cael ei sefydlu i ystyried mecanweithiau darparu gan ddefnyddio eiddo presennol yn ogystal ag adnoddau CBSC (tir a mynediad i gyllid). Mae Tai Fforddiadwy yn flaenoriaeth yn y cynllun Corfforaethol nesaf.  Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid Cymdeithas Tai i ymateb i'r angen sylweddol am fwy o dai fforddiadwy yn y fwrdeistref. Er bod nifer y Tai Cymdeithasol yng Nghonwy yn isel o gymharu â gweddill Cymru mae ein prosesau ar gyfer dyrannu'r adnodd cyfyngedig hwn yn gadarn ac effeithlon. Mae'r Gofrestr Tai Cyffredin yn sicrhau bod pob Cymdeithas Tai lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ddyrannu'r tai cymdeithasol sydd ar gael. Mae hyn yn cynnig gwell gwasanaeth i gwsmeriaid sydd eisoes wedi cwblhau nifer o geisiadau i'r Cymdeithasau unigol, gwell defnydd o adnoddau cyfyngedig ar draws pob Cymdeithas ac yn gwneud yn siŵr bod eiddo'n cael ei ddyrannu'n gyson i'r rheiny sydd fwyaf mewn angen.

6.2.25	Gweithio mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid eraill i atal digartrefedd lle bo hynny'n bosibl, ac i gefnogi pobl sy'n mynd yn ddigartref.	(REG) Gwasanaethau Tai	Cynllun Gwasanaeth REG 1.3.1.5	✓											Mawrth 2017	<p>Mae gan Bartneriaeth Datrysiadau Tai Conwy 29 aelod o staff o Gartrefi Conwy, Cyngor Conwy a Chyngor ar Bopeth i ddarparu ystod o wasanaethau atal digartrefedd ac opsiynau tai. Ers agor ei drysau i'r cyhoedd 2 flynedd nôl, mae cynnydd wedi bod yn nifer yr ymwelwyr â'r gwasanaeth o 5000 ym mlwyddyn 1 i 8000 ym mlwyddyn 2 ac mae llawer o hyn o ganlyniad i well ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth.</p> <p>18 mis ers cyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014, mae Conwy'n arwain y ffordd mewn llawer o agweddau ar wasanaethau atal digartrefedd ac opsiynau tai ac efallai'n fwyaf nodedig, caiff ein trefniadau partneriaeth eu hystyried yn arfer positif yn genedlaethol. Ffocws arbennig wrth fynd ymlaen fydd gweithio'n gydweithredol gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i fodloni anghenion y Bobl Ifanc ac i sicrhau "Llwybrau Positif i Oedolaeth". Byddwn yn adeiladu ar ein gwaith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gefnogi rhyddhau cleifion yn amserol o'r ystybytu i liniaru'r pwysau ar wasanaethau iechyd a lleihau "Blocio Gwelyau" mewn ystybytai lleol.</p> <p>Trwy Bartneriaeth Datrysiadau Tai Conwy, rydym yn parhau i weithio ochr yn ochr â Chartrefi Conwy fel ein darparwr mwyaf o dai cymdeithasol yng Nghymru ac fel partner yn ein gwaith ar opsiynau ac atal digartrefedd.</p> <p>Rydym yn parhau i ddefnyddio ein Grŵp Darparu Rheoli Tai Cymdeithasol i gydweithio ar heriau a rennir a monitro effaith Diwygio Lles a bygythiadau eraill sy'n dod i'r amlwg yn ogystal â nodi arfer gorau. Rydym hefyd wedi sefydlu "grŵp tai a rennir" lle byddwn yn ceisio cynnal peilot o opsiynau tai a rennir newydd i'r rheiny na fyddant mwyach yn gallu fforddio byw ar ben eu hunain yn dilyn newidiadau diweddar i'r Lwfans Tai Lleol a rheolau Budd-dal Tai.</p>
6.2.26	Cynllun Gwella Gwelliannau Tai - Canolbwyntio ar ofynion cwsmeriaid: Adolygu deunydd darllen Gwella Tai ar y gwahanol wasanaethau a ddarperir, gan sicrhau bod pob dogfen mewn Fformat Saesneg plaen.	(REG) Gwasanaethau Tai	Cynllun Gwasanaeth REG 1.3.2.7		✓	✓	✓								Rhagfyr 2016	Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud a bellach mae'n fusnes fel arfer.
6.2.27	Parhau i fod yn aelod o gynllun HYNT Cymru gyfan. Mae Hynt yn gynllun mynediad cenedlaethol sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydol yng Nghymru i sicrhau bod cynnig cyson ar gael i ymwelwyr â nam neu ofynion mynediad penodol, a'u Gofalwyr neu Gynorthwyr Personol.	Theatrau a Chynadleddau		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ar unwaith ac yn barhaus	Mae Venue Cymru a Theatr Colwyn wedi parhau gydag aelodaeth o'r cynllun mynediad i'r anabl cenedlaethol HYNT i sicrhau bod cynnig cyson ar gael i ymwelwyr sydd â nam neu anghenion mynediad penodol. Y bwriad yw parhau â hyn ar gyfer 2017/18.
6.2.30	Adolygu'r broses gyfathrebu ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.	[ERF] Cludiant	Cynllun Gwasanaeth ERF 1.9.6.26	✓	✓	✓			✓	✓					Rhagfyr 2016	Mae llyfryn safonau gwasanaeth ar gyfer plant AAA (Anghenion Addysg Arbennig) wedi cael ei ddatblygu fel bod rhieni yn gwybod safon y gwasanaeth y dylent ei ddisgwyl; mae lleoedd consesiynol yn cael eu cyhoeddi ac mae ffurflenni cais bellach ar gael yn electronig ac maent ar gael ar wefan CBSC. Mae strategaeth ehangach yn cael ei ddatblygu a fydd yn cynnwys ystyried gwneud gwybodaeth olrhain contractwr yn hygyrch i rieni fel eu bod yn gallu olrhain lleoliad cludiant eu plant.
6.2.31	Diweddarau a newid y polisi Cludiant Ysgol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.	[EDU] Effeithiolrwydd Ysgolion	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.1.3.17	✓	✓	✓			✓	✓					Rhagfyr 2016	Mae'r Protocol Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi cael ei ddiweddarau er mwyn ei gyhoeddi ar ddechrau'r flwyddyn ysgol academaidd 2017/18. Mae cyfrifoldeb am gydlynw'r Protocol wedi'i drosglwyddo i'r Swyddog Sicrhau Ansawdd a Ffurio Polisi o fewn yr Adran Plant a Theuluoedd.
6.2.32	Asesu a rhoi cyhoeddusrwydd i lwybrau peryglus o'r Cartref i'r Ysgol.	[ERF] Cludiant	Cynllun Gwasanaeth ERF1.6.3.21	✓	✓	✓			✓	✓					Rhagfyr 2016	Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau ac mae'r wybodaeth wedi cael ei throsglwyddo i Maps@Conwy er mwyn ei gyrchu'n rhwydd.
6.2.33	Gweithredu penderfyniad y Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol diwygiedig.	[EDU] Gwasanaeth a Chymorth Ysgol	Cynllun Gwasanaeth EDU 1.4.4.2	✓	✓	✓			✓	✓					Rhagfyr 2016	Mae'r Polisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol wedi'i gyhoeddi ac fe ddaeth i rym ar 1af Medi 2016.
6.2.34	Datblygu cynllun cludiant cymunedol lleol i helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau hanfodol.	(CDS) Twristiaeth a Chymunedau	Cynllun Gwasanaeth CDS 1.4.1.1	✓	✓	✓			✓	✓					Mawrth 2017	Mae'r Cynllun Cludiant Cymunedol bellach wedi'i gwblhau. Rydym wedi comisiynu adolygiad llawn o'r rhwydwaith i ddwyn ymlaen peth o'r gwaith cludiant cymunedol o ran blaenoriaethu mynediad i wasanaethau a bydd y Cynllun Cludiant Cymunedol yno i roi cyngor i unrhyw bartneriaid trydydd parti sy' dymuno sefydlu neu ddatblygu cynllun Cludiant Cymunedol yng Nghonwy. Byddwn yn llunio adroddiad ynghylch dyfodol darpariaeth cludiant cymunedol yn y dyfodol agos.